# Cynllun yr Iaith Gymraeg yn Chubut

# Adroddiad Blynyddol 2018

`




**Rhisiart Arwel**

**Monitor Academaidd a Chadeirydd Pwyllgor Cynllun Cymraeg Patagonia**

# CYNNWYS


1) Gorolwg, Dull a Maes Llafur. Tud. 3

2) Cyllid, Hanes Tud. 4

3) Llwyddiannau Allweddol. Tud. 5

4) Targedau 2018. Tud. 6

5) Traweffaith y Cynllun/Ystadegau a Ffigurau. Tud. 7 – 14

6) Arholiadau CBAC Tud. 15

7) Pigion o adroddiad y Cydlynydd Dysgu. Tud. 16 - 17

8) Sefydliadau Addysgol Patagonia. Tud. 18 - 19

9) Ysgolion Dwyieithog y Wladfa. Tud. 20 – 30

10) Y Gymraeg mewn Ysgolion cyfrwng Sbaeneg. Tud. 31 - 34

11) Dosbarthiadau Porth Madryn. Tud. 35

12) Menter Patagonia. Tud. 36 - 41

13) Pigion o adroddiadau Swyddogion Datblygu 2017. Tud 42 – 52

14) Taith yr Urdd 2018. Tud 53

15) Astudiaethau Achos. Tud. 54 - 55

16) Argymhellion 2017: Adroddiad Cynnydd. Tud. 56 - 58

17) Argymhellion 2018. Tud. 58




## GOROLWG

Sefydlwyd Prosiect yr Iaith Gymraeg yn 1997 gyda'r pwrpas o hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg yn nhalaith Chubut, Patagonia, yr Ariannin.

Bob blwyddyn, mae tri Swyddog Datblygu Iaith o Gymru yn treulio cyfnod o ddeg mis - rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr - yn gweithio ym Mhatagonia. Maent yn datblygu'r iaith mewn cymunedau sy'n siarad Cymraeg drwy ddysgu ffurfiol mewn dosbarthiadau i bobl ifanc ac oedolion, yn nosbarthiadau'r tair ysgol ddwyieithog, Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cyfrwng Sbaeneg a thrwy weithgareddau cymdeithasol anffurfiol.  Mae Cydlynydd Dysgu parhaol o Gymru sy'n gyfrifol am ansawdd y dysgu hefyd wedi'i lleoli ym Mhatagonia.

Agwedd arall ar y prosiect yw rhwydwaith o diwtoriaid sy'n siarad Cymraeg sydd wedi'u lleoli yn y rhanbarth. Mae nifer o'r tiwtoriaid lleol yma yn gweithio i'r Cynllun ar ôl iddynt eu hunain fynychu dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Trwy ymgeisio am ysgoloriaethau a chael cyfleoedd i ymweld â Chymru i fynychu cyrsiau Cymraeg, mae'r Cynllun yn gallu cynorthwyo i gynnal safonau addysgu a'r fethodoleg ddiweddaraf sydd ar waith ym Mhatagonia.

Cytundeb grant ydy Cynllun yr Iaith Gymraeg Patagonia, ac mae'n cael ei weithredu gan British Council Cymru mewn cydweithrediad â Phwyllgor yr Iaith Gymraeg. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys aelodau o Lywodraeth Cymru, British Council Cymru, Cymdeithas Cymru Ariannin, Urdd Gobaith Cymru, Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Mae'n bleser hefyd cydnabod cyfraniad gwerthfawr Ysgol y Gymraeg Prifysgol Bangor a Dysgu Cymraeg Prifysgol Aberystwyth am y cymorth gydag addasu cyrsiau, hyfforddiant a chynnig cyfleoedd i fyfyrwyr o Batagonia ar y Cyrsiau Haf.

**Dull a maes llafur**

Mae'r Cynllun yn gweithio mewn tri dalgylch yn nhalaith Chubut: yr Andes, Gaiman a Threlew.

Mae'r Cynllun hefyd yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau o lefel dechreuwyr i gyrsiau gloywi i siaradwyr Cymraeg rhugl. Rydym yn cynnal y cyrsiau hyn yn y sectorau meithrin, cynradd, uwchradd ac ym maes oedolion.

Mae Swyddogion Datblygu'r Iaith Gymraeg a gyflogir gan y Cynllun yn addysgu amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys Blasu, Wlpan (Mynediad a Sylfaen), Pellach (Canolradd), Uwch a Meistroli. Ar hyn o bryd, defnyddir cyrsiau a luniwyd gan Gymraeg i Oedolion, Prifysgol Caerdydd, sydd wedi'u haddasu ar gyfer cyd-destunau Sbaeneg a Chymraeg. Eleni bydd y Cynllun yn dechrau defnyddio'r cyrsiau newydd sy'n cael eu paratoi ar gyfer y sector Cymraeg i Oedolion gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Yn y man, bydd y cyrsiau i gyd yn cael eu cyfieithu a'u haddasu ar gyfer y Wladfa. Mae Pwyllgor y Cynllun yn cydnabod cyfraniad hael a phwysig y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i waith y Cynllun ym Mhatagonia.

## Cyllid

Mae Llywodraeth Cymru, British Council Cymru a Chymdeithas Cymru-Ariannin yn ariannu'r prosiect hwn, sy'n rhan o Raglen Addysg Ryngwladol Llywodraeth Cymru. Mae cefnogaeth i waith y Cynllun yn dod hefyd o Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Prifysgolion Bangor, Caerdydd ac Aberystwyth yn ogystal ag Urdd Gobaith Cymru.

Nid oes modd er hynny, i gyllid gymharol fychan y Cynllun dalu am bob elfen o'r gwaith yn cefnogi iaith a'r diwylliant Cymraeg yn y Wladfa. Mae cyfraniadau ariannol ac ymarferol ein partneriaid yn hynod bwysig felly, er mwyn gallu gweithredu ystod eang o ddosbarthiadau, gwasanaethau a gweithgareddau Cymraeg yn nhalaith Chubut.

Mae Cynllun Cymraeg Patagonia yn talu am dri Swyddog Datblygu'r Gymraeg sy'n gweithio yn y Wladfa am ddeg mis bob blwyddyn. Yn ychwanegol, defnyddir oddeutu 22% o gyllid y Cynllun i dalu am wasanaeth y tiwtoriaid lleol gyda'r dosbarthiadau oedolion ac yn yr ysgolion.

Mae llywodraeth Talaith Chubut yn talu am 100 awr o ddysgu Cymraeg ar draws y dalaith, yn yr ysgolion a chyda'r Oedolion. Mae sefyllfa ariannol y tair ysgol ddwyieithog yn wahanol wrth gwrs, ond maent i gyd yn talu o'u cyllid eu hunain am elfennau fel cost athrawon, pensiynau, deunyddiau dysgu ac ati. Mae rhai cynghorau lleol - fel Cyngor y Gaiman - hefyd yn talu am ddosbarthiadau Cymraeg mewn ambell ysgol Sbaeneg eu hiaith. Heb y cyfraniadau ychwanegol yma, ni fyddai cymaint o weithgareddau cefnogi'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn gallu digwydd ym Mhatagonia.

## Hanes

Ym mis Mai 1865, hwyliodd oddeutu 153 o deithwyr o Gymru ar gwch y Mimosa i Dde America mewn ymgais i osgoi gorthrwm a thrais yn eu mamwlad. Y gobaith oedd creu'r Gymru newydd ar diroedd eang ac anial Patagonia. Glaniodd y mewnfudwyr o Gymry ar arfordir yr Ariannin am y tro cyntaf ar Orffennaf yr 28ain 1865.

Erbyn heddiw, mae disgynyddion y daith gychwynnol honno, ynghyd â nifer o'r teithwyr eraill a gyrhaeddodd yn ystod degawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif yn byw mewn sawl cymuned ar draws Talaith Chubut.
Mae Cymru a Phatagonia felly wedi'u huno gan draddodiad a hanes ac mae seiniai'r Gymraeg i'w chlywed yn y Wladfa hyd heddiw. Yn yr un modd, mae llawer o'r traddodiadau diwylliannol megis y Cymanfaoedd Canu a'r Eisteddfodau yn parhau i gael eu harfer a'u mwynhau hyd heddiw.

Does dim ffigyrau dibynadwy ar gael am y nifer o siaradwyr Cymraeg yn y Wladfa, ond ar ddechrau'r 21ain ganrif, amcangyfrifir bod tua 50,000 o boblogaeth Patagonia o dras Gymreig.

**Taith Arsylwi 2018**

Mae'r daith arsylwi yn rhoi'r cyfle i'r Monitor Academaidd brofi ac arsylwi'r dysgu yn y Wladfa. Mae'n gyfle pwysig hefyd i drafod gyda staff, tiwtoriaid, pwyllgorau lleol a'r gymuned yn ehangach er mwyn cael darlun cyflawn o'r sefyllfa ar lawr gwlad.

Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gyda phartneriaid a nifer o bwyllgorau lleol yn ogystal ag arsylwi dosbarthiadau Cymraeg yn yr Ysgolion Cynradd Dwyieithog, yr Ysgolion Uwchradd (sy'n cynnig Cymraeg fel pwnc) a nifer helaeth o ddosbarthiadau Cymraeg i Oedolion.

## LLWYDDIANNAU ALLWEDDOL 2018

1) Anfonwyd tri Swyddog Datblygu i Batagonia: un i'r Andes, 75% dysgu a 25% gwaith Menter Patagonia

Dau berson i'r Dyffryn, y ddau ohonynt yn dysgu am 75% o'u hamser a threulio 25% yr un ar waith Menter Patagonia.

2) Cyfanswm o **1236** o bobl ar gyrsiau Cymraeg, twf o **9.8%** ers y llynedd.

3) Twf o **8.2%** yn niferoedd Plant Meithrin (o dan 5 oed), cynnydd o **24.5%** yn niferoedd Plant cyfnod CA1 (6 i 8 oed) a thwf o **48.4%** yn niferoedd y plant yng nghyfnod CA2 (9-11 oed) ar draws y Dalaith

4) Cynnydd yn Ysgol y Cwm, Trevelin, Ysgol Gymraeg y Gaiman ac Ysgol yr Hendre Trelew.

5) Ysgoloriaethau gwerth **£2000** yr un a gyllidir gan Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i alluogi myfyrwyr o Batagonia astudio ar gyrsiau Cymraeg yng Nghaerdydd a/neu Aberystwyth.

6) Ysgoloriaeth Profiad Gwaith Urdd Gobaith Cymru er mwyn i bobl ifanc rhwng 18 a 25 oed o'r Wladfa gael cyfle o brofiad gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg am gyfnod o saith wythnos.

8) Cyfrannu at gynnal nifer fawr o ddigwyddiadau gan sefydliadau a grwpiau gwahanol e.e. Yr Urdd, Capeli'r Dyffryn a'r Andes



## TARGEDAU 2018

1 Anfon 3 Swyddog Datblygu i addysgu a threfnu gweithgareddau cymdeithasoli iaith Menter Patagonia.
Yn Nyffryn Camwy penodwyd un tiwtor i arbenigo ar y sector cynradd, ac apwyntiwyd ail diwtor i weithio gyda'r arddegau a'r oedolion.
Yn yr Andes, penodwyd un tiwtor i weithio gyda'r cyfnod cynradd, yr arddegau a'r oedolion.

2) Cyflogi un Cydlynydd Dysgu llawn amser yn y Wladfa.

3) Cynorthwyo myfyrwyr o'r Wladfa i fynychu Cwrs yr Haf, Prifysgol Caerdydd neu Brifysgol Aberystwyth.

4) Cynnal a chynyddu nifer y dysgwyr mewn gwersi Cymraeg

5) Parhau'r drafodaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol am addasu a chyfieithu cyrsiau Cymraeg i Oedolion newydd ar gyfer Patagonia

6) Parhau gyda chynlluniau i ddatblygu cynllun strwythuredig o hyfforddiant ar gyfer tiwtoriaid y Wladfa

**Gwireddwyd y cyfan o'r targedau uchod yn ystod 2018**



**Siôn Dafis, un o diwtoriaid lleol Dyffryn Camwy gydag un o'i ddosbarthiadau Cymraeg**

## TRAWEFFAITH Y CYNLLUN

### YSTADEGAU

1 Cydlynydd Dysgu – Clare Vaughan (yr Andes)

1 Cydlynydd Gweinyddol – Luned González (Dyffryn Camwy)

3 o Athrawon/Swyddogion Datblygu Patagonia (2 yn y Dyffryn ac 1 yn yr Andes):

Emyr Evans (yr Andes) Plant/Ieuenctid/Oedolion

Gwenno Rees (Y Dyffryn) Plant/Ieuenctid/Oedolion

Glesni Edwards (Y Dyffryn) Plant/Ieuenctid/Oedolion

34 o athrawon/tiwtoriaid yn dysgu Cymraeg

Nid yw'r ffigwr yma yn cynwys yr athrawon sydd yn dysgu trwy gyfrwng y Sbaeneg yn yr ysgolion cynradd dwyieithog.

**Nifer y dosbarthiadau**: Roedd **115** (90) o ddosbarthiadau yn 2018, cynnydd o **28%**

Niferoedd 2017 mewn cromfachau


| **Gaiman (yn cynnwys Dolavon)** | **Trelew (yn cynnwys Porth Madryn a Comodoro)** | **Yr Andes (yn cynnwys Esquel a Threvelin)** |
|---|---|---|
| **63**<br>(54) | **30**<br>(14) | **22**<br>(22) |

**Nifer y dysgwyr:**

| | **Gaiman (gan gynnwys Dolavon)** | **Trelew (gan gynnwys Porth Madryn, Comodoro)** | **Yr Andes** | ***CYFANSWM*** |
|---|---|---|---|---|
| **2018** | **831** | **210** | **195** | **1236** |
| 2017 | 758 | 165 | 203 | 1126 |
| 2016 | 873 | 185 | 212 | 1270 |
| 2015 | 739 | 200 | 281 | 1220 |
| 2014 | 722 | 251 | 201 | 1174 |
| 2013 | 657 | 171 | 157 | 985 |
| 2012 | 607 | 145 | 225 | 977 |
| 2011 | 582 | 133 | 131 | 846 |
| 2010 | 527 | 85 | 150 | 762 |
| 2009 | 474 | 76 | 153 | 703 |

## Niferoedd o ran haenau oedran y dalgylchoedd:

| | Gaiman (yn cynnwys Dolavon) | Trelew (yn cynnwys Madryn) | Yr Andes (Esquel a Threvelin) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Meithrin (o dan 5 oed)** | **110** (110) | **45** (34) | **57** (52) | **212** (196) |
| **Ôl-feithrin (CA1)** | **109** (116) | **59** (946) | **50** (13) | **218** (175) |
| **Plant cynradd (CA2)** | **235** (102) | **37** (35) | **50** (80) | **322** (217) |
| **Arddegau** | **315** (386) | **10** (4) | **2** (10) | **327** (400) |
| **Oedolion** | **62** (44) | **59** (46) | **36** (48) | **157** (138) |
| **CYFANSWM** | **831** (758) | **210** (165) | **195** (203) | **1236** (1126) |



**Sylwadau**:

Mae'n galonogol iawn cyhoeddi bod ffigyrau 2018 nid yn unig wedi dal eu tir ond wedi cynyddu mewn sawl sector yn ystod y flwyddyn er gwaetha'r hinsawdd ansicr yn yr Ariannin, yn gymdeithasol ac yn economaidd.

Mae nifer y dosbarthiadau wedi cynyddu bron 30% eleni. Mae nifer o ffactorau wedi cyfrannu at y twf; ariannwyd dosbarthiadau Cymraeg newydd yn Ysgol 100 y Gaiman (Ysgol Sbaeneg ei hiaith) gan adran Gelfyddydau Cyngor y Gaiman, a hefyd sefydlwyd nifer o ddosbarthiadau ychwanegol ymestyn iaith disgyblion yr ysgolion dwyieithog

Mewn cymhariaeth â'r blynyddoedd blaenorol, mae cyfanswm nifer y dysgwyr yn 2018 wedi codi; mae'n rhagori ar y llynedd, ac yn ail i 2016. Roedd y flwyddyn honno yn un arbennig o dda, gan iddi elwa ar lwyddiant dathliadau canmlwyddiant a hanner sefydlu'r Wladfa yn 2015. Yn ystod blwyddyn y dathlu, gwelwyd adfywiad rhyfeddol yn y diddordeb; llwyddwyd i godi ymwybyddiaeth am yr iaith a'r diwylliant ar draws y dalaith, gyda'r canlyniad bod carfan newydd wedi'u denu i ddysgu mwy am y diwylliant ac i fynychu'r dosbarthiadau Cymraeg.

Nid oes llawer o newid wedi bod yng nghyfanswm cyllid y Cynllun dros y blynyddoedd. I bob pwrpas felly, mae ei werth wedi dirywio mewn termau real, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae chwyddiant yn yr Ariannin wedi chwarae rhan fawr yn nirywiad gwerth y cyllid hefyd. Profwyd problemau economaidd dwys yn y wlad drwy gydol 2018; yn dilyn argyfwng ariannol cyrhaeddodd chwyddiant oddeutu 47%, yr uchaf yn Ne America heblaw am Venezuela. Ar ben hyn, collodd arian yr Ariannin - y Peso - 50% o'i gwerth yn ystod y flwyddyn ac mae'r wlad bellach yn swyddogol mewn dirwasgiad.

Cynhaliwyd nifer fawr o streiciau gan weithwyr y sector gyhoeddus yn ystod 2018. Creodd hyn anrhefn yn y system addysg yn gynnar yn y flwyddyn a chaewyd nifer o ysgolion talaith Chubut wrth i'r athrawon gynnal nifer fawr o streiciau am gyflogau uwch.

Mwy rhyfeddol byth felly bod 2018 wedi bod yn flwyddyn cystal i'r Cynllun. Mae'r llwyddiant hwnnw i'w briodoli i waith caled a diwyd ein Swyddogion Datblygu, y tiwtoriaid a'r athrawon lleol, y lli o wirfoddolwyr a'n staff ar lawr gwlad. Llongyfarchiadau mawr i bawb am gyflawni gwyrthiau.

Fel mae'r ffigyrau'n amlygu, yn niferoedd disgyblion y tair ysgol gynradd ddwyieithog bu'r twf amlycaf yn ystod 2018. Yng nghyfnod CA2 er enghraifft, gwelwyd dros 48% o gynnydd. Roedd twf amlwg hefyd yng nghyfnod CA1 (24.5%) a Meithrin (8.2%).

Mae hyn yn newyddion calonogol dros ben.

Does dim rhyfedd mewn gwirionedd bod y sector cynradd yn parhau i dyfu'n gyson. Mae llawer iawn o waith caled a chyson gan yr ysgolion eu hunain - ynghyd â chyfraniad pwysig Swyddogion y Cynllun - wedi sicrhau llwyddiant a thwf parhaus.

Mae llwyddiant yn creu llwyddiant yn aml, ac mae'r newyddion da am yr ysgolion dwyieithog yn amlwg wedi ymdreiddio'n fwyfwy i ymwybyddiaeth y gymdeithas Sbaeneg ei hiaith yn Nhalaith Chubut. Prawf o hyn ydy bod nifer cynyddol o rieni yn penderfynu anfon eu plant i'r ysgolion dwyieithog i dderbyn eu haddysg o flwyddyn i flwyddyn.

Mae llwyddiant a hyder yr ysgolion eu hunain yn amlwg bellach wrth iddynt gynyddu niferoedd a chyflogi athrawon o Gymru eu hunain. Mae hyn yn sicr yn mynd i arwain at wella a chyfoethogi profiad y disgyblion. Braf iawn cael nodi bydd nifer yr athrawon o Gymru yn yr ysgolion dwyieithog yn cynyddu eto yn ystod 2019.

Rhaid hefyd cydnabod cyfraniad ysgolion Sbaeneg eu hiaith - Ysgol 24 Esquel, Ysgol 100 y Gaiman, Ysgol Bryn Gwyn ac Ysgol Aliwen yn Nyffryn Camwy - am y cyfraniad pwysig maent yn ei wneud trwy gynnal dosbarthiadau a gweithdai Cymraeg. Mae'r cyfraniad maent yn ei wneud yn bwysig dros ben ac yn gymorth mawr i ledaenu dealltwriaeth a gwella agweddau. Yn y pen draw bydd y cyfraniadau yma'n cynorthwyo i normaleiddio'r iaith a'r diwylliant yn Nhalaith Chubut.

Bellach, mae'r sector Meithrin yn cynrychioli bron **17%** o ddysgwyr y Wladfa, tra bod y sector Cynradd (CA1 a CA2) yn cynrychioli **43.7%** o'r dysgwyr.


**26.5%** yw canran y sector arddegau.

Nôl yn 1997 ar ddechrau'r Cynllun, 279 o oedolion oedd yn dysgu. Bryd hynny wrth gwrs yr oedolion oedd yn cael y flaenoriaeth, yn cynrychioli **49%** o'r holl ddysgwyr.

Erbyn hyn, **12.7%** yw canran yr Oedolion o holl ddysgwyr Y Wladfa.



**Rhai o aelodau grŵp y 'Ddrag Fach' Trelew gyda'i hathrawes Norma Price**






**Gwenno Rees (ar y chwith), un o Swyddogion Dyffryn Camwy 2018 gyda chriw o ieuenctid Clwb Rygbi'r Ddraig Goch, y Gaiman**

**Niferoedd o ran lefelau iaith oedolion**

| | Cyn Mynediad | Mynediad (Wlpan 1) | Sylfaen (Wlpan 2) | Canolradd (Pellach) | Uwch a Meistroli | Hyfedredd (Gloywi) | Cyf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gaiman** | **15**<br>(3) | **26**<br>(10) | **0**<br>(5) | **6**<br>(12) | **5**<br>(5) | **10**<br>(9) | **62**<br>(44) |
| **Trelew** | **0**<br>(0) | **27**<br>(12) | **15**<br>(11) | **10**<br>(11) | **1**<br>4) | **6**<br>0) | **59**<br>(38) |
| **Yr Andes** | **0**<br>(7) | **12**<br>(14) | **9**<br>(15) | **6**<br>(8) | **6**<br>(0) | **3**<br>(15) | **36**<br>(59) |
| **Cyfanswm** | **15**<br>(10) | **65**<br>(36) | **24**<br>(31) | **22**<br>(31) | **12**<br>(9) | **19**<br>(24) | **157**<br>(141) |

Mae'r niferoedd sy'n mynychu'r dosbarthiadau oedolion yn cynnal yn arbennig o dda yn Nyffryn Camwy o hyd.

Yn yr Andes yn anffodus gwelwyd cwymp yn niferoedd yr arddegau ac oedolion unwaith yn rhagor. Yn achos yr oedolion, gellir priodoli'r dirywiad yn rhannol i'r sefyllfa economaidd fregus ac i'r ddarpariaeth gweddol gyfyng a gynigir o ran amseroedd y dosbarthiadau. Bydd dadansoddi a chryfhau'r ddarpariaeth trwy ychwanegu dosbarthiadau newydd, ar amseroedd amrywiol ac ar y lefelau uwch yn un o'r blaenoriaethau ar gyfer 2019.

Fel yng Nghymru, mae nifer y dysgwyr sy'n symud ymlaen i'r dosbarthiadau lefelau uwch yn y Wladfa (lefel Canolradd ymlaen) yn siomedig. Ni welir y niferoedd iachus sydd ar lefel Mynediad a Sylfaen yn symud ymlaen i lefelau Canolradd, Uwch a Meistroli. Bydd ceisio gwella ar y broblem parhad a chynnydd er mwyn creu mwy o siaradwyr Cymraeg yn un o flaenoriaethau'r Cynllun yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Yn raddol, mae cyrsiau newydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cael eu cyflwyno i ddosbarthiadau Cymraeg Chubut, a'r gobaith ydy bydd y cyrsiau newydd, lliwgar ac apelgar yma yn denu mwy o ddysgwyr i'r dosbarthiadau ac yn eu hannog i barhau i astudio am gyfnodau hirach.



**Glesni Edwards, un o Swyddogion Datblygu Dyffryn Camwy 2018 gyda dosbarth Cymraeg yn y Gaiman**


**Nifer o oriau cyswllt Cymraeg fesul lefel yn y dalgylchoedd - ffigyrau 2017 mewn cromfachau**

| | Meithrin (o dan 5 oed) | CA1 (6-8 oed) | CA2 (9-11 oed) | Arddegau | Oedolion | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gaiman** | **93.08 93 awr 5 mun** (64.5) | **52.66 52 awr 40 mun** (55.83) | **10.24 10 awr 15 mun** (54.66) | **26.75 26 awr 45 mun** (28) | **17.66 17 awr 45 mun** (11) | **200.40** (214) |
| **Trelew** | **75** (75) | **72.48 72 awr 30 mun** (72.48) | **32** (32) | **1.5 1 awr 30 mun** (2) | **25.75 20 ar 45 mun** (20.75) | **206.73 201 awr 45 mun** (202.23) |
| **Yr Andes** | **52.5** (41) | **24** (11.15) | **3** (13) | **1.5** (3.5) | **22** (21) | **103** (89.65) |
| **Cyfanswm** | **220.58 220 awr 40 mun** (180.5) | **149.14 149 awr 10 mun** (139.46) | **45.24 45 awr 15 mun** (99.66) | **29.75 29 awr 45 mun** (33.5) | **65.41 60 awr 25 mun** (6) | **510.12 505 awr 10 mun** (505.88) |

Mae gwaith da y tair Ysgol Ddwyieithog i'w weld yn glir yn y tabl uchod; mae'r oriau mwyaf i'w gweld yn y sector Meithrin a CA1. Wrth i'r ysgolion dyfu bydd niferoedd CA2 hefyd yn cynyddu fel y bydd gan bob ysgol restr gyflawn o ddosbarthiadau - o Flwyddyn 1 tan flwyddyn 6.

Mae'r oriau yn cynnal yn dda yn y sector arddegau. Mae'r diolch am hyn yn rhannol i Goleg Camwy ac Ysgol (Uwchradd) Aliwen yn Nyffryn Camwy, lle mae'r Gymraeg yn orfodol o flwyddyn 1 tan flwyddyn 3. Unwaith bydd y tair ysgol ddwyieithog wedi cyrraedd eu llawn twf, mae gobaith y gwelir cynnydd sylweddol yn y sector yma yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Mae'n galonogol gweld mai yn yr Andes mae'r cyfanswm uchaf o oriau ar gyfer oedolion. Er bod y niferoedd yn isel yn nosbarthiadau'r ardal, mae'r ddarpariaeth ar bob lefel. Mae llawer o'r oedolion a ddysgodd Gymraeg yn nyddiau cynnar y Cynllun bellach yn cyfrannu mewn sawl modd gyda'r iaith a'r diwylliant yn eu hardaloedd. Mae nifer yn gweithredu fel tiwtoriaid Cymraeg hefyd, ac er eu bod yn ddigon hapus i ymgymryd â dysgu'r lefelau is (Mynediad a Sylfaen), mae llawer yn teimlo'n ddihyder i ddysgu'r lefelau uwch. Mae trafodaethau wedi dechrau am ddatblygu Cynllun hyfforddi strwythuredig ar gyfer tiwtoriaid lleol ym Mhatagonia. Mae'r cynllun tymor hir yma yn un uchelgeisiol er mwyn sicrhau bod y tiwtoriaid lleol nid yn unig yn teimlo'n gymwys i ddysgu'r cyrsiau newydd ond hefyd yn meddu ar y sgiliau dysgu priodol i ddysgu ar y lefelau uwch.



**Arholiadau CBAC**

Mae dysgwyr y dosbarthiadau Cymraeg yn y Wladfa yn cael cyfle i sefyll arholiadau Cymraeg i Oedolion CBAC. Mae hyn yn brofiad hynod o werthfawr ac mae'n cynnig cymhelliad cryf i'r dysgu. Diolch i'r Cyd Bwyllgor am hwyluso'r broses i fyfyrwyr y Wladfa.

Mae cael derbyn tystysgrif swyddogol gan gorff rhyngwladol yn brofiad pwysig iawn i fyfyrwyr yr Ariannin ac yn un sy'n ennyd clod a pharch, yn arbennig gan fod arholiadau Cymraeg i Oedolion CBAC yn cael eu gosod o fewn fframwaith Ewropeadd o ddysgu ieithoedd.

Dyma ffigyrau 2018. Dim ond myfyrwyr o Ddyffryn Camwy a gofrestrodd ar gyfer yr arholiadau eleni.

| Lefel | Wedi cofrestru | Wedi sefyll | Pasio | Methu |
|---|---|---|---|---|
| **MYNEDIAD** | 10 | 10 | 8 | 2 |
| **SYLFAEN** | 7 | 7 | 7<br>(2 ymgeisydd gyda Rhagoriaeth) | 0 |
| **CANOLRADD** | 2 | 0<br>(problemau gydag amseru gwaith cwrs) | — | — |




**Glesni Edwards gyda dosbarth oedolion yn Nhrelew**

**Sylwadau cefndirol gan Clare Vaughan, Cydlynydd dysgu'r Cynllun Cymraeg, Patagonia**

Wrth ystyried hanes y Cynllun er 1997, mae'n anhygoel sut mae wedi esblygu dros gyfnod o 20 mlynedd:  cyn i'r Cynllun ymddangos, roedd gwirfoddolwyr yn mynd i'r Wladfa am gyfnodau gweddol fyrion er mwyn rhoi'r iaith ar wefusau'r bobl oedd yn awchu am gael y cyfle i wneud cysylltiadau gyda'u cyndeidiau.

Yn sgil hyn, ac ar sail gwaith gan yr Athro Robert Owen Jones yn y 90au, roedd teimlad y byddai'n bosib i Lywodraeth Cymru (a'r Swyddfa Gymreig cyn hynny) gynorthwyo i adeiladu pontydd trwy greu Cynllun fyddai'n anfon athrawon proffesiynol draw i'r Wladfa i weithio am flwyddyn ac i geisio annog dysgwyr i ddod yn athrawon a thiwtoriaid eu hunain yn y pen draw.

Roedd yr athrawon a ddaeth o Gymru yn derbyn yr un cyflog a dderbyniai athrawon lleol yr Ariannin a byddai cydnabyddiaeth ariannol am waith y tiwtoriaid lleol hefyd.  Tyfodd y gwaith, a dechreuodd rai breuddwydio am ymestyn y ddarpariaeth er mwyn annog y plant i ddysgu, gan mai nhw fyddai'n parhau gyda'r iaith a'r diwylliant i'r dyfodol.

Roedd camsyniad mai chwarae oedd dysgu iaith a pha ffordd well i greu statws i'r iaith na'i chynnwys yng nghyfundrefn addysg y wlad a'r Dalaith?  Yn gyntaf sefydlwyd Ysgol yr Hendre yn Nhrelew yn 2006. Yn ddiweddarach, esblygodd darpariaeth Feithrin y Gaiman i fod yn Ysgol Gynradd swyddogol ac yn olaf agorodd Ysgol y Cwm Trevelin ei drysau yn 2016.

Ni fyddai'r ysgolion wedi bodoli heb y Cynllun Dysgu Cymraeg a byddai cenedlaethau o blant a phobl ifanc wedi'u hamddifadu o'r cyfle i ddysgu iaith eu cyndeidiau.  Yn araf, magwyd hyder a datblygwyd hunaniaeth newydd gan y cymunedau Cymreig yn Chubut. Gwnaed hyn trwy ddysgu'r iaith mewn modd proffesiynol a thrwy gynnig cyfleoedd i ddysgwyr deithio draw i Gymru i wella eu sgiliau iaith yn ogystal â thrwy dderbyn ymwelwyr i'r Wladfa a chreu cysylltiadau newydd.

Yn anffodus 'diwedd y gân yw'r geiniog' ac mae cyllido Cynllun o'r fath yn hollol hanfodol i'w lwyddiant ac eto yn ymylol i rai.  Yn ystod blwyddyn dathliadau'r Canmlwyddiant a Hanner ers i'r Cymry cyntaf gyrraedd y Bae Newydd, gwnaed llawer o addewidion am gymorth i'r cymunedau Cymraeg ac i'r ysgolion. Yn anffodus, ychydig iawn o'r addewidion hynny a wireddwyd. Un peth ydy creu parc neu adeiladu cofgolofn, peth arall ydy talu cyflogau'r athrawon bob mis.  Mae'r galw am wersi Cymraeg wedi tyfu ond mae'r gefnogaeth ariannol o Gymru drwy'r Cynllun yn crebachu mewn termau real.

Mae'r Llywodraeth Talaith Chubut yn talu am 100 awr *catedra* (sef cyfnod o 40 munud) o wersi Cymraeg dros y Dalaith i gyd, ac mae'r Cynllun yn darparu 505 awr 15 munud o wersi Cymraeg, sef 758 awr *catedra.* Nid ydy'r ffigwr yma gyda llaw, yn cynnwys cyfraniad llywodraeth y Dalaith i wersi Cymraeg mewn rhai o'r ysgolion Sbaeneg eu hiaith, fel Ysgol 24 Esquel ac Ysgol Aliwen Dyffryn Camwy.

Mae'r Dalaith yn talu 528 peso'r awr i athrawon proffesiynol ac fel rhan o'r cyflog, maent yn derbyn pensiwn a  gofal iechyd.  Nid yw'r tiwtor llawrydd lleol yn derbyn cyfraniadau tuag at bensiwn, tâl gwyliau na gofal iechyd.

Gan fod yr ysgolion wedi dod yn sbardun i ddysgu Cymraeg erbyn hyn mewn tair tref a bod cymunedau fel Esquel a Phorth Madryn yn agored i bawb sydd eisiau dysgu Cymraeg.

Byddai'n braf gweld y gefnogaeth ariannol yn cynyddu fel ei bod yn bosib cefnogi dysgu Cymraeg i athrawon di-gymraeg ac i rieni'r plant sy'n mynychu'r ysgolion dwyieithog yn ogystal ag ehangu'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer Oedolion.

Byddai'n braf gweld mwy o ysgoloriaethau i bobl ifanc  o'r Wladfa i deithio i Gymru:  mae Ysgoloriaeth Gravell i un o bobl ifanc y Wladfa i fynd i Goleg Llanymddyfri yn gyfle bendigedig ond nid yw'n canolbwyntio ar iaith yn bennaf a byddai'n braf cynnig posibiliadau eraill.  Byddai'n dda cynnig ysgoloriaeth i athrawon Patagonia fynd i Gymru, nid yn unig o ran dysgu iaith, ond o ran dysgu am arferion da ym maes dysgu disgyblion dwyieithog, sydd yn gysyniad newydd i lawer o'r athrawon yn Nhalaith Chubut.

Mae'r cymunedau wedi dechrau cyfrannu llawer mwy yn ariannol nag oedd unrhyw un wedi breuddwydio ar y dechrau, gan fuddsoddi mewn addysg trwy adeiladu a chynnal a chadw eu canolfannau. Mae cymdeithasau Cymraeg yn cyfrannu at brosiectau trwy dalu oriau dysgu neu gynnig lle i'r gweithgareddau. Mae rhai Cynghorau lleol yn talu am oriau Cymraeg mewn ysgol Sbaeneg, mae pobl gyffredin yn talu er mwyn i'w plant fynd i'r ysgolion dwyieithog.  Rydym yn wynebu amseroedd anodd yn yr Ariannin ac yng Nghymru ond rhaid gweithio'n greadigol er mwyn goroesi'r cymylau duon er mwyn camu ymlaen yn hyderus i'r Daucanmlwyddiant.

**Clare Vaughan, Trevelin 2018**



**Grisel Roberts gyda dosbarth oedolion yng Nganolfan Esquel, yr Andes**

## SEFYDLIADAU ADDYSGOL PATAGONIA

**Coleg Camwy y Gaiman**



**Coleg Camwy, y Gaiman**

Sefydlwyd Coleg Camwy yn 1906 fel 'Ysgol Ganolraddol' a hi oedd yr ysgol uwchradd gyntaf yn y Wladfa.

Bellach, mae'r sefydliad yn cynnig gwersi Cymraeg i bob dosbarth.

Mae'r Ysgol yn derbyn plant sydd wedi bod yn mynychu'r ysgolion dwyieithog yn y Gaiman a Threlew ac yn cynnig darpariaeth ar ddwy lefel. Mae dosbarthiadau i ddechreuwyr dan ofal Caren Jones a Gabriel Restucha ac mae'r dosbarthiadau i´r rhai mwy rhugl eu Cymraeg o dan ofal Esyllt Nest Roberts. Yn ystod 2018 bu Glesni Edwards a Gwenno Rees, Swyddogion y Cynllun Cymraeg yn Nyffryn Camwy hefyd yn cynorthwyo gyda'r dosbarthiadau ymestyn iaith.



**Gabriel Restucha gydag un o ddosbarth Cymraeg Coleg Camwy, y Caiman**



**Esyllt Nest Roberts gyda gwersi estynedig yn y Gymraeg yng Ngholeg Camwy**

Yng Ngholeg Camwy, mae'r Gymraeg yn orfodol yn ystod Blwyddyn 1, 2 a 3 ac yn ddewisol yn y tair blwyddyn olaf.



**Caren Jonesyn dysgu un o ddosbarthiadau Cymraeg Coleg Camwy**

## YSGOLION DWYIEITHOG Y WLADFA

Mae tair ysgol gymradd dwyieithog bellach ym Mhatagonia; Ysgol yr Hendre, Trelew, Ysgol Gymraeg y Gaiman ac Ysgol y Cwm yn Nhrevelin Mae'r ysgolion yn cynnig addysg o safon uchel ac mae'r staff yn frwdfrydig a gweithgar, yn gweithio o dan amgylchiadau economaidd heriol.

**Ysgol Gymraeg y Gaiman**




Agorwyd Ysgol Feithrin y Gaiman yn 1993. Cymaint bu'r cynnydd yn y galw am addysg Gymraeg dros y blynyddoedd fel yr agorwyd Ysgol Gymraeg y Gaiman yn 2013.



**Sibil Hughes a Celeste Filiponi gyda phlant meithrin Ysgol y Gaiman**

**Adroddiad Rebeca White (Pennaeth) ac Esyllt Nest Roberts (Athrawes Gymraeg):**

“Mae Ysgol Gymraeg y Gaiman yn mynd o nerth i nerth yn flynyddol ac fe wyddom oll bellach fod y cyfraniad a wnawn ni fel ysgol, yn ogystal â’r ddwy ysgol Gymraeg arall, yn allweddol i sicrhau parhad y Gymraeg a’r diwylliant Cymraeg yma ym Mhatagonia.

Eleni cawsom y fraint o groesawu dwy o Swyddogion Datblygu’r Cynllun Cymraeg - Gwenno Rees a Glesni Edwards - atom i’r ysgol. Mae Gwenno wedi ymroi i ddysgu Grŵp Estrys (plant 7-8 oed) am ddwy awr, bedwar prynhawn yr wythnos (a Glesni’n cyflawni gwaith y pumed diwrnod).

Dim ond y Gymraeg a ddysgir yma yn y prynhawn (Cymraeg a Sbaeneg yn y bore), gyda’r dosbarth derbyn dan ofal Angelica Evans a’r plant cynradd wedi eu setio i dri grŵp yn ôl lefel eu Cymraeg dan ofal Angharad Price (athrawes o Gymru), Gwenno Rees a Glesni Edwards ar y cyd, ac Esyllt Nest Roberts. Oherwydd cefndir Gwenno mewn ysgolion cynradd mae hi wedi bod yn gaffaeliad aruthrol ac wedi dod i adnabod anghenion ei disgyblion fel unrhyw athrawes lawn-amser a datblygu sgiliau’r plant yn ôl eu hanghenion unigol. Mae hi wedi ymroi mewn gweithgareddau allgyrsiol, ac wedi bod yma hefyd un bore bob wythnos yn cynnal gweithdai darllen efo’r disgyblion iau”.



**Gwenno Rees gyda rhai o ddisgyglion Ysgol y Gaiman**

“Mae Glesni hithau wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr, yn datblygu sesiynau darllen efo grwp Estrys un prynhawn yr wythnos a chynnal dosbarthiadau Cymraeg i’r staff. Rydym wedi cael adborth cadarnhaol a’r staff yn parhau’n frwdfrydig ac yn awyddus i ddefnyddio’r Gymraeg y tu allan i’r dosbarthiadau ffurfiol. Mae’r datblygiad hwn o addysgu’r oedolion yr un mor bwysig i’n hysgol”.



**Glesni Edwards (ar y dde) gyda rhai o staff cynorthwyol Ysgol y Gaiman**

“Ni allwn ni fel ysgol or-bwysleisio pwysigrwydd cyfraniad y Swyddogion Datblygu i waith addysgu’r ysgol. Fel y gwyddoch, mae prinder athrawon cymwysedig i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yma ym Mhatagonia. O’r herwydd, mae cael Cymry (di-Sbaeneg yn aml) ar ein staff yn hanfodol gan fod hynny’n cynyddu’r angen i’r plant a’r oedolion ddefnyddio eu Cymraeg drwy’r adeg, yn ogystal â chynyddu brwdfrydedd ein staff ail iaith a rhoi hyder iddynt drwy gydweithio â’r staff iaith gyntaf”.



**Angharad Price gyda disgyblion Ysgol y Gaiman**

“Rydym ni fel ysgol yn cyflogi un athrawes o Gymru ein hunain bellach – Angharad Price - sy’n gwneud gwahaniaeth aruthrol i’n hysgol. Fodd bynnag, heb gyfraniad Swyddogion y Cynllun byddai’n her enfawr arnom i fedru addysgu ein plant yn ddwyieithog, felly fe hoffem ddiolch i chi am gynnwys ein hysgol yn amserlen y swyddogion a rhoi’r cyfle i ni ddatblygu siaradwyr Cymraeg y dyfodol – yn blant ac oedolion - yn ein hysgol ni”.

*Rebeca White (Pennaeth) ac Esyllt Nest Roberts (Athrawes Gymraeg)*

**Ysgol y Cwm, Trevelin**




**Ysgol y Cwm, Trevelin. Meithrin - rhif: 1475. Cynradd - rhif: 1038**

**Hanes cefndir yr ysgol gan Clare Vaughan**


Dechreuodd y gymuned yng Nghwm Hyfryd freuddwydio am sefydlu ysgol wrth baratoi at ddathliadau'r canmlwyddiant a hanner ers i'r Cymry cyntaf gyrraedd glannau Porth Madryn. Beth fyddai'n well na chofeb fyw lle byddai'r iaith a thraddodiadau yn cael eu pasio ymlaen i genhedlaeth newydd o drigolion y pentref? Aeth y Gymdeithas Gymraeg ati i werthu sawl llain o dir yn Nhrevelin a dechreuodd y gwaith adeiladu yn 2015. Agorwyd yr ysgol yn swyddogol ar Fawrth y 9fed 2016 a dechreuodd 50 o blant rhwng 3 a 6 oed fynychu'r ysgol Feithrin. Erbyn heddiw mae'r Ysgol yn ail gyfnod yr adeiladu gydag ystafelloedd newydd ar gyfer yr adran gynradd yn cael eu plastro a'u peintio ar hyn o bryd ac ym mis Mawrth 2019 bydd 120 o blant rhwng 3 a Blwyddyn 3 yn mynychu ysgol newydd sbon, llawn golau a gydag ystafelloedd pwrpasol ar gyfer eu gwaith.



**Gwaith ehangu Ysgol y Cwm yn ystod Hydref 2018**

Mae hyn yn rhyfeddol wrth ystyried mai'r gymuned, y Gymdeithas Gymraeg a Chymdeithas yr Ysgol sydd wedi talu am y prosiect.

Y gymuned a'r pwyllgorau hefyd sy'n gyfrifol am dalu'r biliau nwy a thrydan, yswiriant, y glanhau, prynu dodrefn a deunyddiau, brecwast a the i'r disgyblion yn ogystal â gorffen adeiladu'r adeilad ac am dalu'r athrawon, gan nad ydy'r Llywodraeth yn cyfrannu o gwbl at gyflogau'r athrawon. Mae hyn yn golygu bod rhaid cynnal digwyddiad bob mis er mwyn dod o hyd i ddigon o arian ar ben beth mae'r rhieni yn talu fel ffi. Nid dyma oedd y meddylfryd gwreiddiol; y gobaith oedd cynnig addysg ddwyieithog i bawb oedd â diddordeb ond oherwydd na dderbyniwyd unrhyw gymorth gan y Llywodraeth, roedd rhaid sefydlu'r ysgol fel un breifat gyda'r holl bwysau ariannol sy'n dod yn sgil hynny.




**Digwyddiadau 2018**

Mae gwaith yr adran Feithrin yn y prynhawn wedi'i integru gyda'r cynorthwyydd iaith yn y dosbarth am oriau cyntaf y prynhawn yn gweithio ar y cyd gyda'r athrawes feithrin sydd wedi derbyn hyfforddiant o dan system yr Ariannin. Mae pob diwrnod dysgu yn dechrau gydag Amser Cylch lle bydd y disgyblion yn codi baneri'r Ariannin a Chymru ac yn canu yn y ddwy iaith.

Erbyn hyn, mae Blwyddyn 1 a 2 sydd yn cael bore estynedig gydag awr a hanner o Gymraeg ychwanegol ar ben y diwrnod ac fe drefnir gwersi Cerddoriaeth a Dawnsio Gwerin fel ffordd o gael mwy o Gymraeg i mewn i'r cwricwlwm.



**Sesiwn ganu gyda disgyblion Ysgol y Cwm**

Wrth i'r ysgol ddod yn opsiwn poblogaidd i rieni'r dref, mae hyn yn creu her newydd i'r ysgol - beth i'w wneud gyda'r plant sy'n cyrraedd yr ysgol heb fod yn yr ysgol feithrin. Eleni, mae'r ysgol wedi cynnal dosbarth i'r 'hwyrddyfodiaid' bedair gwaith yr wythnos o dan ofal Nia Jones er mwyn ceisio lefelu iaith y plant rhyw faint cyn iddynt ddechrau'r flwyddyn nesaf. Y rhieni eu hunain sy'n talu am y dosbarth hwn.



**Emyr Evans, Swyddog Datblygu'r Andes yn rhoi gwers Gymraeg yn Ysgol y Cwm**



**Ximena Roberts, un o athrawon Ysgol y Cwm**

Mae Jessica Jones a Ximena Roberts o’r Ariannin yn dysgu plant 3 oed a 4 oed tra mae Nia Jones (oedd yn un o  Swyddogion Datblygu’r Cynllun) wedi aros yn yr ardal ac mae bellach yn gweithio gyda Blwyddyn 1 yn y boreau a phlant 5 oed yn y prynhawn.  Mae mewnbwn Emyr Evans (Swyddog y Cynllun eleni) wedi mynd i mewn i ddosbarth Blwyddyn 1 am hanner cyntaf y flwyddyn a Blwyddyn 2 yn ail ran o’r flwyddyn. Mae Emyr wedi bod yn weithgar yn codi arian i diwnio’r piano fuodd y teulu Williams yn ddigon hael i’w roi i ni.

Mae’r athrawon di-gymraeg y mynychu cwrs Cymraeg yn wythnosol fel ffordd o’u hannog i ddefnyddio’r iaith sydd ganddynt ac i fod yn ymwybodol o sut mae dysgu ail iaith
.



**Clare Vaughan yn dysgu Cymraeg i rai o athrawon Sbaeneg eu hiaith Ysgol y Cwm**

**2019**

Mae’r ysgol wedi sylweddoli bod cael presenoldeb person o Gymru yn ddyddiol yn hynod o bwysig i ddatblygiad yr ysgol, felly mae’r ysgol yn gobeithio cyflogi athro neu athrawes i weithio’n benodol i Ysgol y Cwm yn 2019.  Mae cost uchel iawn i hyn sydd yn cynnwys nid yn unig talu cyflog ond hefyd costau teithio o Gymru, llety, yswirant a thrwydded waith. Mae’r ysgol felly wedi paratoi cynllun er mwyn ceisio cael 25 o bobl i gyfrannu’n gyson er mwyn galluogi talu’r holl gostau.

Bydd 120 o blant wedi cofrestru erbyn 2019 a rhaid sicrhau bod yr adnoddau ar gael i ddarparu addysg o safon uchel yn ddwy iaith a fydd yn cadw iaith a holl draddodiadau’r mewnfudwyr cyntaf yn ddiogel ar gyfer y dyfodol.



**Jessica Jones gyda’i dosbarth yn Ysgol y Cwm**



**Nia Jones, un o gyn-Swyddogion y Cynllun sydd bellach yn athawes yn Ysgol y Cwm**

**Staff Ysgol y Cwm 2018**

| Enw | Rôl | Telir gan |
|---|---|---|
| Erica Hammond | Prifathrawes Ysgol Feithrin | Ar gyfnod o sabothol di-dâl Ebrill – Tachwedd 2018 |
| Claudia Mazziotti | Prifathrawes Cynradd<br>Priathrawes Ysgol Feithrin dros-dro<br>Athrawes Sbaeneg Blwyddyn 1 | 100% Ysgol y Cwm |
| Margarita Green | Ysgrifenyddes | 100% Ysgol y Cwm |
| Jessica Hopkins | Athrawes Plant 3 oed Sbaeneg | 100% Ysgol y Cwm |
| Jessica Jones | Athrawes Gymraeg Plant 3 oed | 50% Llywodraeth<br>25% Ysgol y Cwm<br>25% oriau'r Cynllun |
| Evangelina Davies | Athrawes Plant 4 oed | 100% Ysgol y Cwm |
| Ximena Roberts | Athrawes Gymraeg Plant 4 oed | 65% Llywodraeth<br>35% Cynllun |
| Daniela Limache | Athrawes Sbaeneg Plant 5 oed | 100% Ysgol y Cwm |
| Nia Jones | Athrawes Gymraeg Plant 5 oed | 50% Ysgol y Cwm<br>50% Cynllun |
| Judith Jones | Athrawes Sbaeneg Blwyddyn 1 | 100% Ysgol y Cwm |
| Nia Jones | Athrawes Gymraeg Blwyddyn 1 | 50% Ysgol y Cwm<br>50% Cynllun |
| Claudia Mazziotti | Athrawes Sbaeneg Blwyddyn 2 | 100% Ysgol y Cwm |
| Emyr Evans | Athro Cymraeg Blwyddyn 2 | 100% Cynllun |
| Maria de Oro | Cerddoriaeth | 100% Ysgol y Cwm |
| Camila Itxassa | Ymarfer Corff | 100% Ysgol y Cwm |



**Defod codi'r baneri yn Ysgol y Cwm**

**Ysgol yr Hendre, Trelew**

Agorwyd Ysgol yr Hendre yn Nhrelew gyda 22 disgybl ar Fawrth y 6ed 2006. Bellach mae ganddi dros gant o ddisgyblion, ac maent yn derbyn 3 awr a hanner o addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddyddiol.




**Adeilad gwreiddiol Ysgol yr Hendre yn ardal Moreno, Trelew**



**Ysgol yr Hendre, adeilad ardal Rivadavia**



**Ystafelloedd ddosbarth newydd wedi'u cwblhau yng nghefn adeilad Ysgol yr Hendre**



**Gwenno Rees, un o swyddogion y Cynllun 2018 gyda dosbarth yn Ysgol yr Hendre**

## DYSGU'R GYMRAEG MEWN YSGOLION CYFRWNG SBAENEG.

**Yr Andes: Ysgol 24, Esquel**

Mae'r Gymraeg yn cael ei chefnogi a'i dysgu mewn sawl ysgol cyfrwng Sbaeneg ar draws talaith Chubut.
Un ohonynt yw Ysgol 24 yn Esquel. Yma, mae'r athrawes Diana Jenkins ac Emyr Evans, Swyddog Datblygu'r Andes yn parhau gyda'r gwaith o gynnal gweithdai Cymraeg.

Mae'r gweithdai yn cynnwys elfennau o ddysgu iaith, themâu diwylliannol a dawnsio gwerin.






**Diana Jenkins yn un o weithdai Cymraeg Ysgol 24, Esquel**

**Dyffryn Camwy**

Yn Nyffryn Camwy, mae ysgol Uwchradd Aliwen yn cynnig dosbarthiadau Cymraeg i flynyddoedd 1, 2 a 3 (blynyddoedd 7, 8 a 9 yng Nghymru) o dan ofal Gabriel Restucha a Caren Jones.

**Ysgol Bryn Gwyn**




Celeste Filiponi sy wedi bod yn gyfrifol am y ddarpariaeth Gymraeg yn Ysgol Gynradd Bryn Gwyn eleni.



**Celeste Filiponi gydag un o'i dosbarthiadau Cymraeg yn Ysgol Bryn Gwyn**

**Ysgol 100 y Gaiman**

Mae dosbarthiadau Cymraeg wedi cael eu cynnal yn achlysurol yn ysgol Gynradd 100 y Gaiman dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ystod 2018, ail gydiwyd yn y gwersi Cymraeg diolch i haelioni adran Ddiwylliant Cyngor y Gaiman. Victoria Steinkamp, un a ddysgodd Gymraeg yn wreiddiol gyda'r Cynllun Cymraeg sydd wedi bod yn gyfrifol am ddysgu Cymraeg am oddeutu 8 awr yr wythnos. Mae'r Ysgol ei hun yn gefnogol iawn i'r cynllun ac maent yn awyddus i'r cynllun barhau yn ystod 2019.





**Adroddiad Virginia Steinkamp.**




"Dechreuais i astudio'r Gymraeg yn fy arddegau a dw i wedi cael pleser mawr yn astudio'r iaith dros y blynyddoedd. Eleni, derbyniais y cynnig i ddysgu deg modiwl o wersi Cymraeg 40 munud yr un i blant blwyddyn 4, 5 a 6 yn ysgol rhif 100 gan bwyllgor diwylliant Cyngor y Gaiman. Ar ôl cyfarfod gyda phennaeth yr ysgol, Claudia Ball a phennaeth pwyllgor diwylliant Cyngor y Gaiman Mary Zampini, cytunon ni y byddwn i'n gweithio dyddiau Llun a Mercher yn dysgu Cymraeg i blant blwyddyn 4 a 5 a dysgu Saesneg i blant blwyddyn 6 er mwyn iddynt baratoi ar gyfer blwyddyn gyntaf yr ysgol uwchradd.

Ar ddechrau'r cyfnod yn Ysgol 100, ces i groeso hyfryd gan yr athrawon a'r disgyblion. Roedd y plant yn edrych yn gyfforddus iawn ac roeddent yn fy nerbyn i. Yn amlwg, er bod rhai grwpiau yn cynnig her i ni fel athrawon, dw i wedi deall sut i ddysgu a sut i garu pawb. Mae gen i bron 200 o ddisgyblion. Dw i wedi bod yn dysgu 7 modiwl o 40 munud fore a phrynhawn ddydd Llun, hefyd 3 modiwl o 40 munud foreau Mercher.

Buodd y flwyddyn yn arbennig o brysur eleni. Oherwydd problemau ariannol yn yr Ariannin eleni roedd sawl streic yn ystod y flwyddyn. Er hynny, dw i'n hapus oherwydd gafodd y plant, o leiaf, flas o'r iaith.

Canolbwyntiais i yn fy ngwersi cyntaf ar ynganiad a seiniau'r iaith, drwy chwarae gemau a chanu caneuon. Dw i wedi defnyddio llawer o gemau a gweithgareddau crefft ar hyd y flwyddyn yma hefyd. Cynnwys fy rhaglen (patrymau gramadegol a geirfa) yw seiniau'r iaith (a'r wyddor), cyfarchion, rhifau, lliwiau, cwestiynau personol, y tywydd, dyddiau'r wythnos, misoedd y flwyddyn, anifeiliaid, meddiant, hanes Gŵyl y Glaniad, y teulu, siapiau, tymhorau, dillad, y corff, bwyd, hoffterau, berfau yn y presennol, amser

Fy mhwrpas yw cefnogi trosglwyddiad yr iaith a phlannu hadau o wybodaeth, cariad ac angerdd tuag at y Gymraeg. Mae iaith yn gyffredinol yn fynegiant celfyddydol i'w werthfawrogi. Gwerthfawrogi iaith am ei holl hanes heb ei barnu hi; dysgu iaith, ei throsglwyddo hi; dyma'r ffordd o gadw'r iaith yn fyw. Deall ei ddioddef ei hymdrech a'i hysblander. Os rydyn ni'n deall hyn, byddwn ni'n derbyn yr holl fendith sydd yn hanfod ieithoedd, yn disgwyl cael eu darganfod."

## DOSBARTHIADAU CYMRAEG PORTH MADRYN

Lorena Peralta sy'n gyfrifol am y gwersi Cymraeg yng Nghanolfan Toschke, Porth Madryn.

Cynhelir y dosbarthiadau sawl gwaith yr wythnos, a'r patrwm ydy bod un o Swyddogion Datblygu'r Cynllun yn cynorthwyo gyda'r dysgu a'r gweithgareddau yn fisol.



**Lorena Peralta (yn y gwyrdd) a Glesni Edwards gyda dysgwyr Porth Madryn**



**Menter**
**PATAGONIA**

Mae'r gwaith a wneir gan y tiwtoriaid lleol a Swyddogion Datblygu'r Cynllun yn yr ystafelloedd dosbarth yn hynod o bwysig. Dyma wrth gwrs lle mae'r seiliau ieithyddol yn cael eu gosod mewn lle a'r camau cyntaf yn cael eu cymryd ar hyd y daith o ddod yn rhugl yn y Gymraeg. Cyfrwng cyfathrebu yw iaith wedi'r cyfan ac mae angen creu cyd-destun i'w defnyddio a chyfleoedd i'w siarad. Mae cyfraniad Swyddogion y Cynllun yn cymdeithasoli'r iaith yn y cymunedau yn waith pwysig dros ben, a gellir dadlau ei fod cyn bwysiced â'r gwaith dosbarth mewn gwirionedd.

Er mai bodoli mewn enw yn unig mae Menter Patagonia bellach, mae ysbryd a gweledigaeth y Fenter yn fyw ac yn iach. Cynhelir digwyddiadau a gweithgareddau'n fisol gan y Swyddogion er mwyn creu cyfleodd i ddysgwyr yr iaith i'w chaffael.

Gyda hyn fel uchelgais, aethpwyd ati yn 2009 i osod amcanion Menter Patagonia sef:
Rhaid wrth ymdrechion gwirioneddol i normaleiddio defnydd o'r iaith mewn trawstoriad o sefyllfaoedd cymdeithasol - ymestyn ei defnydd cymdeithasol.
Dylid anelu at gynnal amrywiaeth eang o sefyllfaoedd, achlysuron a gweithgareddau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg.

Gellid awgrymu gweithgareddau fel a ganlyn:
Gweithgarwch ar gyfer plant meithrin a'u rhieni. Gallai hyn fod yn gyfle i ennyn diddordeb yn y rhieni a'u cael i ddosbarth Cymraeg - o leiaf un sesiwn yr wythnos.

Gweithgareddau ar gyfer plant cynradd - chwaraeon, crefftau, peintio a gwaith llaw, gemau, natur a'r amgylchedd, dawnsio gwerin, grŵp canu/ actio, grwpiau chwarae fore Sadwrn, clybiau gwyliau, hobïau ac ati (dwy haen oedran yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos).

Gweithgareddau ar gyfer plant oedran ysgol eilradd - Aelwyd yr Urdd, chwaraeon, gweithgareddau awyr agored, gweithgareddau diwylliannol, gweithgareddau cymdeithasol (dwy sesiwn yr wythnos os yn bosibl).

Gweithgareddau cymdeithasol rheolaidd ar gyfer oedolion - cwis, sioe ffasiwn, coginio, blasu gwahanol fathau o fwyd, grwpiau trafod neu ddadlau, grwpiau sgwrsio, grwpiau gwahanol hobïau, gwersi cyfrifiaduron ar gyfer dechreuwyr, clybiau cerdded, seiclo, mynydda, sgïo, clwb cinio, nosweithiau llawen, sgyrsiau a darlithoedd, dawnsio gwerin, picnic, gwibdeithiau, nosweithiau ffilmiau ac ati.

Gweithio'n glos â mudiadau lleol Cymreig i'w hysbrydoli - megis yr eisteddfod, cyrddau cystadleuol, y capeli.
Ceisio ymestyn defnydd gweledol o'r Gymraeg yn lleol - y radio, yr amgueddfeydd ac ati.

Mae cyllid gan y Cynllun i ran-gyflogi person ar gyfer gweithgareddau Menter Patagonia. Felly er mwyn sicrhau rhywfaint o bresenoldeb gan y Fenter, tri chwarter swydd (0.75) sydd rhwng y ddau ddalgylch mewn gwirionedd.

Treuliwyd 25% o amser Gwenno Rees a Glesni Edwards ar waith y Fenter yn y Dyffryn a 25% o amser Emyr Evans yn yr Andes.

## Digwyddiadau Menter Patagonia yn Nyffryn Camwy

### Adroddiad Gwenno Rees a Glesni Edwards

Trefnwyd nifer o weithgareddau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ac roedd hi´n bleser gallu bod yn rhan o weithgareddau difyr dros ben. Mae´r gweithgareddau yn gyfle i bobl i gymdeithasu yn Gymraeg tu allan i´r ystafell ddosbarth ac i weld yr iaith fel iaith bob dydd. Trefnwyd nosweithiau amrywiol er mwyn sicrhau fod rhywbeth addas i bawb - o nosweithiau Cawl a Chân, nosweithiau gyda´r bobl leol sydd wedi bod ar ysgoloriaethau yng Nghymru yn gwneud cyflwyniadau, nosweithiau teisennau, cynnal stondin yn y ffeiriau llyfrau a llawer mwy. Roedd niferoedd yn amrywio o weithgaredd i weithgaredd ac yn amrywio o ganlyniad i salwch, gwyliau neu weithgareddau oedd yn barod ymlaen gyda´r teulu. Roedd y nosweithiau yn braf iawn ac yn gyfle i gymdeithasu gyda phobl o bob oed. Roedden ni´n rhan o´r digwyddiadau cymdeithasol o´r dechrau, a gwelson ni pa mor bwysig oedd mynychu bob gweithgaredd oedd yn cael ei drefnu yn Gymraeg, nid yn unig y gweithgareddau roeddwn i´n gyfrifol am drefnu.











| | |
|---|---|
| *Noson Dewi Sant yn Hen Gapel Bethel* | 02/18 |
| *Asado grwp oedolion Trelew* | 02/18 |
| *Stondin Menter Patagonia, Ffair lyfrau Dolavon* | 03/18 |
| *Asado i ddathlu agor dosbarthiadau newydd Ysgol yr Hendre* | 03/18 |
| *Tywys ymwelwyr o Gymru o amgylch y Gaiman a Phorth Madryn* | 03/18, 04/18, 06/18, 10/18 11/18, 12/18 |
| *Eisteddfod Trevelin – cystadlu gyda´r côr a chyd-adrodd* | 04/18 |
| *Noson gyri ar gyfer trip Teithiau Tango* | 04/18 |
| *Cymanfa ganu Trevelin* | 04/18 |
| *Noson Dewi Sant yn Nhy Te Gwyn (Cymdeithas Dewi Sant)* | 04/18 |
| *Oedfa Esquel* | 04/18 |
| *Noson ´Cawl a Chân´ Gaiman* | 05/18 |
| *Stondin Menter Patagonia, Ffair lyfrau Gaiman* | 06/18 |
| *Noson ´Cawl a Chân´ Trelew* | 06/18 |
| *Gêm rygbi Cymru Ariannin yn y Mochyn Du* | 06/18 |
| *Noson deisennau Dolavon* | 06/18 |
| *Trefnu fod plant yr ysgolion yn cael eu ffilmio yn rapio i ddangos ar CYW* | 06/18 |
| *Ysgrifennu erthygl i gyhoeddi ar ran yr ysgolion Cymraeg i hyrwyddo CYW* | 06/18 |
| *Noson sgwrsio gyda Emyr Wyn a Llinor (canwr ac actorion Pobl y Cwm) yn y Gaiman* | 06/18 |
| *Cyflwyniadau ´Gwledydd y Byd´ yn Ffair Lyfrau y Gaiman* | 06/18 |
| *Noson Lawen ar gyfer y cefnogwyr rygbi* | 06/18 |
| *Eisteddfod Mini Bethel – cystadlu gyda´r côr, hyfforddi´r plant i berfformio, gwaith ysgrifennedig gyda´r plant* | 06/18 |
| *Oedfa Capel Bethel* | unwaith y mis |
| *Cymanfa ganu Porth Madryn* | 06/18 |
| *Eisteddfod Ysgol yr Hendre* | 06/18 |

| | |
|---|---|
| *Te Prynhawn Capel Bethel – Gwyl Y Glaniad* | 07/18 |
| *Dathliadau Gwyl Y Glaniad ym Mhorth Madryn* | 07/18 |
| *Arwain Acto San Martin Ysgol Y Gaiman* | 08/18 |
| *Dathliadau Diwrnod Y Gaiman* | 08/18 |
| *Cyfweliad Radio Cymru ar raglen ´Geraint Lloyd´* | 08/18 |
| *Galwad skype gyda chyfarwyddwr y Cyngor Prydeinig ym Muenos Aires* | 08/18 |
| *Eisteddfod y Mimosa* | 08/18 |
| *Eisteddfod Hwyl Coleg Camwy* | 08/18 |
| *Noson ffilm ´Te ar y Grug´* | 08/18 |
| *Cyflwyniad gan y myfyrwyr Santander, Trelew* | 08/18 |
| *Cyflwyniad gan y myfyrwyr Santander, Gaiman* | 08/18 |
| *Noson Deisennau Dolavon* | 09/18 |
| *Asado gyda oedolion Trelew i groesawi y myfyrwyr Cardiff Met a Santander* | 09/18 |
| *Asado Diwrnod yr Athrawon* | 10/18 |
| *Noson Deisennau Dolavon* | 10/18 |
| *Cyflwyniadau gan enillwyr ysgoloriaethau 2018, Gaiman* | 10/18 |
| *Cyflwyniadau gan enillwyr ysgoloriaethau 2018 a pherfformiad gitar gan Rhisiart Arwel, Trelew* | 10/18 |
| *Eisteddfod Yr Ifanc* | 10/18 |
| *Cyngerdd Dolavon – Yr Urdd* | 10/18 |
| *Cyngerdd Trelew – Yr Urdd* | 10/18 |
| *Cyngerdd Porth Madryn– Yr Urdd* | 10/18 |
| *Sosial yng Nghlwb Rygbi Y Ddraig Goch . Yr Urdd* | 10/18 |
| *Swper Gwawr Y Gaiman* | 10/18 |
| *Asado Grwp Sgwrsio Gaiman* | 11/18 |
| *Noson Deisennau Dolavon* | 11/18 |
| *Trip i Dique Florentino gyda´r grwp WLPAN* | 11/18 |
| *Cyhoeddi Cylchgrawn CLECS CAMWY* | 11/18 |
| *Te Prynhawn i grwp Sgwrsio Trelew* | 11/18 |
| *Noson Lawen i gloi dosbarthiadau Cymraeg, Gaiman* | 11/18 |
| *Noson Lawen i gloi dosbarthiadau Cymraeg, Trelew* | 12/18 |
| *Gwasanaeth Carolau, Gaiman* | 12/18 |
| *Noson ffilm ´Poncho Mamgu´yn Llain las.* | 12/18 |
| *Noson Deisennau Dolavon* | 12/18 |

# Clecs Camwy

Papur Bro Dyffryn Camwy    Tachwedd 2018



















Menter
PATAGONIA








## PIGION O ADRODDIADAU'R SWYDDOGION DATBLYGU 2018

**Glesni Edwards**

Mae hi wedi bod yn brysur iawn yma eleni yn y Wladfa ac mae hi'n hyfryd gweld cymaint o bobl yn cymryd rhan mewn digwyddiadau Cymraeg a hefyd yn mynychu gwersi Cymraeg.

**Coleg Camwy**

Mae hi wedi bod yn fraint cael dysgu yn yr Ysgol Uwchradd Gymraeg gyntaf yn y byd. Mae'r staff yn hynod gyfeillgar a'r plant yn hapus, yn mwynhau eu gwersi Cymraeg ac yn barod iawn i ddysgu.

A'r ddechrau'r flwyddyn fe gafodd y streic effaith ar y nifer a fynychai'r gwersi ac ar ddilyniant y gwersi yng Ngholeg Camwy. Er hyn fe gafwyd llwyddiant gyda'r pedwar disgybl a oedd wedi sefyll arholiad Cymraeg CBAC eleni gan eu bod oll wedi llwyddo yn yr arholiad a hynny gyda marciau uchel. Erbyn hyn maent wedi dechrau gwneud gwaith sydd yn eu paratoi ar gyfer sefyll yr arholiad Sylfaen flwyddyn nesaf.

Yn ogystal â hyn rydw i wedi llwyddo i wneud prosiectau cymunedol gyda blynyddoedd 4, 5 a 6 o dan y teitl 'Olion Iaith'. Y syniad y tu ôl i'r prosiectau hyn oedd bod y disgyblion yn ystyried hanes Cymraeg yr ardal ac yn meddwl sut y buasai'n bosib iddynt hwy fel disgyblion dynnu sylw at bwysigrwydd gwreiddiau Cymraeg ardal y Gaiman.

Dyma ychydig o nodiadau am y dosbarthiadau ac am yr hyn yr ydwyf wedi bod yn ei wneud gyda hwy.

Y prosiect mwyaf a wnes i gyda blwyddyn 6 oedd cael y disgyblion i ddarlunio a chreu arwyddion 'Agor' a 'Chau' yn y Gymraeg a'r Sbaeneg ac fe ddosbarthodd y disgyblion yr arwyddion hyn mewn siopau o'u dewis o gwmpas y Gaiman. Fe ysgrifennodd y disgyblion lythyr hefyd i'r maer i ofyn iddo gefnogi'r prosiect ac roedd y llythyr yma gyda'i lofnod yn cael ei gyflwyno i berchnogion y busnes gyda'r arwydd. Dywed Ricardo Evans am y prosiect:

"Rydw i a myfyrwyr blwyddyn 6 wedi mwynhau gwneud y prosiect yma ac rydym yn gweld yr arwyddion yn ffordd bwysig i gynnal yr iaith Gymraeg yn y dref. Drwy wneud prosiectau bach fel hyn gyda'r adran Gymraeg bydd yr iaith yn mynd ymlaen am byth."

Ar gyfer y prosiect cymunedol Olion Iaith penderfynodd rhai o ddisgyblion blwyddyn 5 ei bod hi'n syniad da ail-greu a chyfieithu arwyddion o gynnwys Tŷ Cyntaf Gaiman er mwyn i ymwelwyr allu deall ychydig mwy am hanes a ffordd o fyw un o´r teuluoedd cyntaf i ymgartrefu yn y Gaiman. Os ydych chi'n ymweld â'r Tŷ nawr mae arwyddion newydd wedi eu lamineiddio a'u cyfieithu mewn Sbaeneg, Cymraeg a Saesneg.

Dywed Nia White am y prosiect: “Da ni’n falch iawn o’r prosiect hwn. Mae wedi bod yn rhywbeth gwahanol i’w wneud yn y dosbarthiadau Cymraeg, felly fe wnaethom ni fwynhau ei drafod a’i gynnal.”

Dyma farn Ramiro am y prosiect: “Dw i’n credu ei bod hi’n bwysig i bobl ifanc gymryd rhan mewn prosiectau fel hyn achos mae’n gyfle i gynnal a dysgu am ddiwylliant a threftadaeth ein tref.”





**Dosbarthiadau Oedolion: Dosbarth Mynediad/ Sylfaen. Dydd Llun - 7:00-9:00**

Sonia Roberts, Cristina Rodriguez, Graciela Puente, Julieta Restuccia, Fernando Saldivia a Gladys Alcarraz, Daiana Mancilla

Roeddwn i’n rhannu'r dosbarth gydag Ana Chiabrando ac eleni fe orffennodd y dosbarth y cwrs Mynediad a dechrau ar y cwrs Sylfaen.  Hefyd fe ymgeisiodd pedair o’r dosbarth yma yr arholiad Mynediad eleni ac roedd dwy o’r pedair wedi bod yn llwyddiannus ac un wedi methu o drwch blewyn yn anffodus gan ei bod hi wedi anghofio cwblhau un o’r atebion yn yr arholiad.

Felly mae techneg ateb cwestiynau mewn papur arholiad yn bwysig i’w ymarfer ac adolygu gyda’r dysgwyr hyn gan nad ydynt yn arfer cymryd arholiadau ffurfiol yn aml.

Mae aelodau’r dosbarth yn dangos brwdfrydedd i ddysgu’r Gymraeg ac yn mwynhau eu gwersi a bod yn rhan o’r diwylliant Cymreig.

Roedd aelodau o’r dosbarth hefyd wedi mynychu digwyddiadau cymdeithasol a drefnwyd gan y fenter yn Nhrelew gan ddweud eu bod wedi mwynhau’r profiad a’r ymdeimlad Cymreig a gawsant yn y nosweithiau hyn. Un o’u hoff nosweithiau oedd y Noson Gawl a Chân gan eu bod wedi mwynhau canu caneuon



**Dosbarth Sylfaen/Canolradd**. **Dydd Iau - 7:00 -9:00**

Magali Yangüela, Maria Sylvia, Delia Williams, Daniel Pugh, Roberto Lewis, Tedy Lewis, Paola Dimol, Jorge Davies

Gyda'r dosbarth yma, roedd Ana Chiabrando a minnau wedi bod yn dysgu'r Cwrs Sylfaen ac wedyn ar ôl i'r pump a ymgeisiodd yn yr arholiad Sylfaen basio eleni fe ddechreuodd pawb yn y dosbarth ar y cwrs Canolradd. Roeddwn i hefyd yn ceisio chwarae gemau iaith ar ddechrau'r gwersi er mwyn adeiladu hyder yr aelodau o'r grŵp oedd yn cael trafferth i ynganu a siarad Cymraeg gydag eraill a chredaf ei bod hi'n bwysig i ddal ati gyda gemau o'r fath flwyddyn nesaf. Hefyd ar ôl i Magali, aelod hynod ddawnus a brwdfrydig y dosbarth yma, ddod yn ôl o dreulio amser yng Nghymru ar gwrs Canolradd, roedd hi'n cynnal sesiynau darllen straeon byrion gyda'r dosbarth ac roedd trafod cynnwys y llyfr yn ffordd wych o gael pawb i ymarfer eu Cymraeg ar lafar gydag eraill. Magali hefyd oedd yn llwyddiannus ar ennill cystadleuaeth 'Dysgwr y Flwyddyn' eleni sydd yn gyflawniad anhygoel. Hefyd yn y grŵp yma mae Tedy Lewis sydd yn fachgen hynod dalentog ym maes ieithoedd ac mae ei Gymraeg o safon uchel iawn. Fe ymgeisiodd Tedy eleni am ysgoloriaeth Tom Gravell i fynd i astudio yn Ysgol Llanymddyfri. Nid oedd yn llwyddiannus eleni ond mae'n hynod bwysig ei fod yn parhau i ymgeisio am yr ysgoloriaeth yn 2019 gan ei fod yn ddisgybl dawnus yn y Gymraeg.

Mae'r dosbarth yma hefyd yn ffyddlon iawn i ddigwyddiadau cymdeithasol Cymraeg y Wladfa. Maent yn mynychu Cymanfa Ganu, cyngherddau Cymraeg ac yn cefnogi digwyddiadau i godi arian i'r Eisteddfod. Un o'u hoff nosweithiau eleni oedd 'Noson o Gyflwyniadau Cymraeg a Cherddoriaeth'. Roedd hi'n noson hynod lwyddiannus gyda dros 20 o bobl yn bresennol ac roedd y cyflwyniadau gan Magali a Norma yn ddiddorol gyda safon y Gymraeg yn raenus dros ben.

**Dosbarth Darllen**. Dydd Llun- 4:00 -5:00

Marlin Ellis, Mabel Ellis, Loraine Ellis, Irma Roberts, Beatrice Jones, Nelly Jones, Ida Rosa, Mirta Mabel, Margarita Torres

Yn y dosbarth darllen eleni rydym wedi llwyddo i ddarllen 'Te yn y Grug' gan Kate Roberts 'Atgofion am y Wladfa' gan Valmai Jones a gwahanol straeon byrion o'r llyfr '20 Stori Fer' sydd wedi cael ei gyhoeddi gan y Lolfa. Rydym wedi cael llawer o hwyl yn ystod y flwyddyn ac wedi llwyddo i drefnu dau ddigwyddiad Menter gydag aelodau o'r clwb.

Dyma ychydig mwy o wybodaeth am y clwb.

A finnau yn dod yn wreiddiol o gyffiniau tref Dinbych yn Sir Ddinbych, mae llyfrau Kate Roberts wedi bod yn rhan fawr o fy mhlentyndod ac mae hi wedi bod yn braf cael rhannu fy ngwybodaeth a rhannu'r un hoffter tuag at ei gwaith llenyddol gyda'r grŵp darllen.

I ddechrau roeddem yn darllen gwahanol straeon byrion gan Kate Roberts o gyfrol gyntaf y llyfr '20 Stori Fer' sydd wedi cael ei gyhoeddi gan y Lolfa. Roedd y grŵp wedi mwynhau'r stori fer 'Te yn y Grug' orau felly fe benderfynwyd y buasem yn symud ymlaen i ddarllen y llyfr 'Te yn y Grug' gan Kate Roberts.

Yn y gwersi roeddem yn darllen pennod ac wedyn yn trafod ei chynnwys, cyn mynd ymlaen i wylio'r bennod yn y ffilm 'Y Mynydd Grug'. Addasiad o'r llyfr ydi ffilm 'Y Mynydd Grug' a gafodd ei rhyddhau ym 1997. Mae'r dosbarth wedi mwynhau gweld disgrifiadau Kate Roberts o gymeriadau'r llyfr yn dod yn fyw mewn gwahanol olygfeydd yn ogystal â chael gweld tirlun a natur Cymru sydd wedi cael ei blethu yn wych yn y ffilm gan y gyfarwyddwraig Angela Roberts.

Ar ôl gwyliau'r gaeaf fe orffennwyd y llyfr 'Te yn y Grug' ac fe gafwyd y syniad o greu noson ffilm i Wawr y Gaiman er mwyn i'r grŵp darllen gael gwylio'r ffilm yn ei chyfanrwydd a hysbysebu'r grŵp darllen i aelodau o Wawr y Gaiman. Roedd hi'n noson hyfryd gyda 11 yn bresennol ac fe gafwyd picnic gyda the, jeli coch a chacennau i orffen y noson a ddarparwyd gan ferched y clwb darllen.

**Ysgol Gymraeg y Gaiman** Dydd Iau - 8:30-11:30 - Dysgu Athrawon a staff ysgol**.** Dydd Gwener- 12:45-3:00- Dysgu disgyblion Bl2 a Bl 3

Roeddwn i'n teimlo'n freintiedig iawn yn cael bod yn rhan o'r teulu bach clos yma ac wedi mwynhau bod yn rhan o ddysgu 'r plant, staff yr ysgol a hefyd bod yn rhan o'r digwyddiadau o fewn yr ysgol y Defodau pwysig fel ar y 25 o Fai, Diwrnod y Faner, 'Diwrnod y plant', a'r 'Marathon Darllen' i enwi dim ond rhai.

Yn ogystal â hyn roeddwn i wedi mwynhau helpu gweddill yr athrawon i baratoi'r plant at yr holl Eisteddfodau drwy gael helpu gyda'r gwaith cartref ar lawr y dosbarth a chyda'r gwaith perfformio yn y neuadd. Ac wedi blwyddyn lwyddiannus fel ysgol yn yr Eisteddfodau, roedd hi'n bleser cael cyflwyno yng nghyngerdd diwedd y flwyddyn a chael dangos holl dalent a dawn y plant i'r cyhoedd, i rieni a pherthnasau.

Yn yr ysgol roeddwn i'n dysgu tri grŵp o athrawon a staff ac roedd y sesiynau ar gael i rieni hefyd. Eleni er bod Rebecca White (prifathrawes yr ysgol) wedi sôn am y gwersi Cymraeg mewn ambell i noson rieni ni ddaeth mwy na un rhiant i'r dosbarthiadau ond credaf fel her ar gyfer flwyddyn nesaf y buasai'n braf gallu cael dosbarth o rieni i ddysgu Cymraeg gyda'r swyddog newydd.

Un digwyddiad a oedd yn braf i'w weld ar ddiwedd y flwyddyn oedd y staff a'r athrawon yn cymryd rhan mewn sgets ddoniol yr oeddwn i wedi ei hysgrifennu ar eu cyfer i'w pherfformio yn y Noson Lawen.

Roedd hi'n wych gweld athrawon ac aelodau o'r staff cinio a oedd gyda dim hyder i siarad y Gymraeg ar ddechrau'r flwyddyn yn sefyll ar lwyfan o flaen plant, rhieni a pherthnasau ac wedi dysgu brawddegau Cymraeg. Hoffwn feddwl nawr bod gwneud sgets ddoniol gan ddysgwyr Cymraeg yr ysgol yn rhywbeth blynyddol i'w wneud o hyn allan mewn pob noson lawen ddiwedd y flwyddyn. Yn ogystal â dysgu'r unigolion, roeddwn i hefyd yn dysgu cymysgedd o flwyddyn dau a thri bob prynhawn Gwener. Roedd y dosbarth yn un bywiog a oedd yn llawn hwyl ac roeddent yn mwynhau chwarae gemau iaith ac yn cwblhau eu gwaith dosbarth yn weddol ddidrafferth.

Roedd gwyliau a nifer o weithgareddau yn digwydd ar ddydd Gwener yn ystod y flwyddyn a phan ddoeddwn i ddim yn paratoi ar gyfer eisteddfodau, ymarfer ar gyfer Defod neu yn cael diwrnod thema gyda'r disgyblion, roeddwn i'n gwneud gwaith darllen gyda'r dosbarth. Fe ges i amser i wneud dau brosiect darllen gyda'r disgyblion un gyda'r llyfr 'Y Lindysyn Llwglyd' gan Eric Carle a'r llall gyda'r llyfr 'Syrpreis Handa' gan Eileen Browne. Roedd y plant wrth eu boddau gyda'r ddau lyfr yma ac roeddent wedi mwynhau gwneud bob math o weithgareddau darllen, ysgrifennu, gwrando a deall a chelf ar gynnwys y llyfrau hyn.





**Gwenno Rees**

**Sesiwn Sgwrsio Dolavon**







Ddechrau´r flwyddyn, roedd rhai heriau o ran iechyd ac aelodau yn ei chael hi´n anodd i gerdded i mewn i´r ysgol i´r grŵp. Erbyn hyn, mae grŵp sgwrsio cyffredinol yn digwydd yn wythnosol, gyda thua 3 yn mynychu, ac yna noson yn cael ei threfnu bob mis yn Nolavon.

Fel arfer, noson deisennau rydyn ni´n trefnu yn nhŷ rhyw aelod o´r grŵp ac rydyn ni´n eistedd am oriau yn chwerthin ac yn mwynhau. Mae´r nosweithiau misol yma yn llwyddiannus iawn gyda 6 neu 7 fel arfer yn mynychu. Mae´r grŵp yn siaradwyr hollol rugl ac yn mwynhau trafod unrhyw newyddion neu hanes y teulu. Mwynheuodd y grŵp wylio Cyngerdd yr Urdd yn Nolavon a Chyngerdd Corau'r Gaiman, Tir Halen a Phorth Madryn yn perfformio’n ddiweddar.

**Grŵp Plant Dolavon**







Mae´r plant wedi mwynhau sesiynau dawnsio gwerin, dawnsio Mr Urdd a dysgu am draddodiadau Cymreig - fel creu cennin Pedr a chreu map stori ´Stori Gelert´. Mae´r plant hefyd wedi mwynhau dysgu am hanes y Gymraeg yn y Wladfa a phwysigrwydd y Mimosa gan wneud gwaith celf. Rydym yn chwarae gemau bingo yn wythnosol, ac mae geirfa´r plant wedi datblygu'n dda ers dechrau´r flwyddyn. Mae´r plant yn mwynhau'r sesiynau ac yn frwdfrydig iawn wrth ddysgu.

**Clwb Rygbi Y Ddraig Goch**





Nôl ym mis Medi 2018, gofynnodd Clwb Rygbi'r Ddraig Goch i mi ddechrau gwersi Cymraeg bob nos Fercher gyda´r chwaraewyr rygbi a hoci, gyda phobl ifanc yn amrywio o 14-16 oed. Roedd rhai yn ddechreuwyr pur a rhai yn cofio pethau sylfaenol, ond dechreuon ni´r cwrs 'Taith Iaith' o´r dechrau. Roeddwn i´n dysgu´r grŵp am awr bob nos Fercher ac yna Angélica Evans yn adolygu ac yn ymestyn y plant / rhoi help ychwanegol i´r rhai oedd angen bob nos Wener. Rydym wedi gweithio ar sawl thema gan gynnwys cyflwyno eich hun, bwyd, mathau o ymarfer corff, pynciau ysgol a hoff bethau / cas bethau. Mae datblygiad clir wedi bod ym mhob un o´r bobl ifanc, ac maent yn awyddus iawn i ddatblygu eu Cymraeg ymhellach er mwyn gallu chwarae rygbi yng Nghymru rhyw ddydd! Roedd tua 10 yn dod yn gyson felly roedd modd gweld dilyniant clir. Maent wedi gorffen Uned 1 Taith Iaith ac wedi dechrau dysgu rhai elfennau o Uned 2, felly maent yn barod i symud ymlaen at waith mwy heriol blwyddyn nesaf.

**Grŵp Sgwrsio Gaiman**




Mae grŵp sgwrsio´r Gaiman yn gyfle gwych i gymdeithasu´n Gymraeg mewn modd hwyliog a hamddenol. Mae´r 4 sy´n mynychu yn dod yn gyson ac yn siaradwyr hollol rugl. Rydyn ni fel arfer yn trafod newyddion yr wythnos, rhyw erthygl maent wedi'i weld ar Facebook neu drafod rhywbeth sydd wedi digwydd yn rhyngwladol rydyn ni´n meddwl byddai´n ddiddorol iddynt.

Rydw i ac athrawes Ysgol Gymraeg Y Gaiman yn rhedeg y grŵp sgwrsio gyda´n gilydd ac mae´r sgwrs yn gallu bod yn ddyfnach wrth gael y ddwy ohonom ni´n cyfrannu (ac mae cyfuniad o dafodiaith y De a´r Gogledd yn bwysig). Mae´n bwysig meddwl am ryw destun o flaen llaw i drafod, er rhai wythnosau, mae hen ddigon i drafod heb orfod cyflwyno erthygl. Mae´r grŵp yn cael llawer o hwyl ac rwy wir wedi mwynhau bob nos Fawrth eleni.

**Blwyddyn 1 Coleg Camwy**







Rwy´n dysgu yng Ngholeg Camwy bob bore dydd Iau yn dysgu dosbarth blwyddyn 1A a B. Rydw i a Caren Jones (athrawes Coleg Camwy) yn cytuno ar y testun am y bythefnos nesaf ac wedyn rwy´n mynd ati i gynllunio rhywbeth addas iddynt. Rydyn ni´n rhannu´r dosbarth yn ddau ac rwy´n tueddu i ddysgu´r grŵp yn y llyfrgell, oni bai bod angen i fi gymryd y dosbarth cyfan. Mae rhai o´r disgyblion wedi dysgu ychydig o Gymraeg yn yr ysgol Gynradd ond does dim unrhyw Gymraeg gan y rhan fwyaf. Ymatebodd y disgyblion yn dda i´r gwersi ac erbyn hyn, maent yn medru cael sgwrs syml yn Gymraeg. Yn ystod y flwyddyn, cynigais sawl cyfle gwahanol iddynt gael blas o´r iaith a´r diwylliant Cymreig tu fas i´r dosbarth. Enillodd y grŵp y gystadleuaeth cyd-adrodd uwchradd (y darn Colled) yn yr Eisteddfod a chanom ´Nos da nawr´ fel grŵp yn y Noson Lawen i orffen y dosbarthiadau Cymraeg. Mae´r plant hefyd yn mwynhau gwrando ar gerddoriaeth gyfoes Cymraeg. Mae´n bwysig bod yn egnïol iawn wrth ddysgu´r plant yma a thrio meddwl am ffyrdd hwyl i ddysgu´r pynciau sydd yn y llyfr Taith Iaith (rwy´n cymryd y nod ac yna yn meddwl am ffyrdd gwahanol i addysgu´r nod mewn ffordd hwyliog).

**Clwb Yr Urdd, Trelew**








Rydym yn cwrdd bob nos Iau ac mae niferoedd y grŵp yn dda ar y cyfan (yn amrywio o 5 i 9 o blant). Dewisodd y plant rhai o´r gweithgareddau roeddent eisiau gwneud reit ar ddechrau´r flwyddyn felly rydyn ni nawr yn dewis tasgau gwahanol bob wythnos (gan wneud yn siŵr ein bod yn cynnwys y nod rydyn ni eisiau cyflawni yn ystod y sesiwn). Mae´r gweithgareddau wedi amrywio o goginio pitsas (gan ysgrifennu´r rysáit yn gyntaf), creu helfa drysor i´w gilydd a chreu sleim (gan ddilyn cyfarwyddiadau). Mae´n syniad da cael athrawes Ysgol yr Hendre yn cyd-redeg y clwb a gobeithio bydd hwn yn parhau'r flwyddyn nesaf.

Rydym hefyd wedi trio annog y grŵp i gymryd rhan mewn gweithgareddau tu fas i´r clwb. Yn ystod Noson ´Cawl a Chân´ Trelew, daeth y plant i helpu i osod y stafell lan a helpu i roi'r bwyd allan. Perfformiodd y grŵp “Ar hyd y nos” a helpu i arwain “Oes gafr eto?” gyda gweddill y gynulleidfa. Perfformiodd y grŵp hefyd yn Eisteddfod Ysgol yr Hendre i gynrychioli´r plant sydd wedi gadael yr ysgol erbyn hyn. Maent hefyd wedi cystadlu yn Eisteddfod yr Ifanc- rhai wrth wneud tasgau cyfieithu ac un yn adrodd yn Eisteddfod yr Ifanc. Ysgrifennodd y plant dudalen ar gyfer Clecs Camwy gan gyflwyno eu hoff jôcs Cymraeg. Mae´n bwysig ffeindio gweithgareddau hwyl i´r plant gan eu bod nhw´n grŵp egnïol iawn yn eu harddegau!!

**Grŵp Trysor – Ysgol Gymraeg Y Gaiman**














Rwy´ wrth fy modd yn dysgu´r grŵp yma bob prynhawn o ddydd Llun i ddydd Iau. Mae´r datblygiad yn amlwg iawn ac rwy´wedi llwyddo i ddatblygu perthynas arbennig gyda´r plant. Mae´r plant cynradd wedi eu rhannu i mewn i 3 grŵp yn ôl eu lefel Cymraeg, felly rwy´n dysgu cymysgedd o blant blwyddyn 2, 3 a 4.

Mae´r grŵp yn fywiog iawn felly mae´n bwysig gwneud yn siŵr fod y gwaith yn ddiddorol iddynt. Maent wrth eu boddau yn canu ac yn rapio, ac yn gofyn i ni rapio Rapsgaliwn a Dona Direidi yn ddyddiol. Wrth newid y calendr yn ddyddiol, mae´r plant yn canu caneuon dyddiau´r wythnos, misoedd y flwyddyn a chân y tymhorau.

Rwy´ hefyd yn trio rhoi cyfle i´r plant i arwain dysgu eu hunain, gan ddewis pa bynciau yr hoffen nhw ddysgu, ac yna rwy´n mynd at i drefnu gweithgareddau pwrpasol o amgylch y thema e.e. sgorpionau a phengwiniaid.

Y 3 prif thema eleni oedd thema gyffredinol i ddechrau (y tywydd, bwyd, hoffterau ayyb), yna symud ymlaen i ´ein hardal leol´ gan ddysgu am anifeiliaid lleol ac wrth gwrs, Cwpan Y Byd! Y thema olaf oedd Poeth ac Oer, wrth ddysgu am wledydd dros y byd a´u hanifeiliaid a´u diwylliant.

Dilynwyd cynllun Tric a Chlic trwy´r flwyddyn, fel rhan o´r wers bob dydd. Yn gyffredinol, roeddwn i´n gwneud sesiwn hanner awr o Dric a Chlic bob dydd - gan gynnwys cyflwyno´r wyddor, adeiladu a thorri geiriau, cwis sillafu a gweithgareddau i ymwneud â´r llythrennau ffocws. Mae bob plentyn erbyn hyn yn hyderus yn defnyddio Tric a Chlic, er bod rhai dal yn cael trafferth gyda rhai o´r llythrennau dwbl.

Mae´r gallu yn amrywio yn y dosbarth, gyda rhai wedi gorffen Cam 1 erbyn hyn a rhai o hyd i ymarfer Cam Pinc. Rwy wedi parhau i gyflwyno bob cam yn achlysurol er mwyn sicrhau nad ydynt yn anghofio rhai o´r elfennau cychwynnol.

Mae´r grŵp wrth eu boddau yn darllen ac rwy´n trio cynnig cymaint o gyfleoedd i ddarllen ag sy´n bosib. Mae pawb ond am un wedi gorffen y gyfres Sam a Non (llyfr 1-15) a nawr yn darllen y gyfres Darllen a Deall Sam a Non a llyfrau amrywiol arall. Mae´r plant wrth eu boddau yn darllen Sam a Non ac wedi ymgyfarwyddo yn llwyr â´r gyfres (a´r cymeriadau!)

Roedd yr Eisteddfodau yn rhan allweddol o´r flwyddyn a chafodd bob plentyn y cyfle i ganu, adrodd a chyd-adrodd gyda ni. Dros y flwyddyn, buon ni´n paratoi´r plant ar gyfer sawl cyngerdd ac Eisteddfod wrth ddysgu'r darnau gosod iddynt a´u cefnogi yn yr Eisteddfod.

**Ysgol Yr Hendre**








Bob dydd Gwener, rwy wedi bod yn dysgu blwyddyn 1, 2, 3, 4, 5 a 6 yn Ysgol Yr Hendre. Canolbwyntion ni ar elfennau gwahanol sy´n eu helpu nhw wrth ysgrifennu - mynegi barn, odli, cymariaethau, ysgrifennu disgrifiad ayyb. Ymatebodd y plant yn dda a theimlaf fy mod wedi datblygu perthynas da gyda´r plant, er mai dim ond 40 munud yr wythnos rwy´n gweithio gyda nhw.

Yn ystod ein gwersi ym mis Medi, cystadlodd y plant yng nghystadleuaeth Deian a Loli yn creu cymeriad newydd ar gyfer y rhaglen CYW. Enillodd un o ddisgyblion blwyddyn 6 y gystadleuaeth, felly mae ei gymeriad am ymddangos ar raglenni Deian a Loli ar ôl Nadolig. Mae´r plant hefyd wedi bod wrth eu boddau yn dysgu rapiau gwahanol, gan gynnwys Rapsgaliwn a Dona Direidi, a dangosodd CYW ein fideo yn rapio ar eu tudalen Facebook.

**Gweithgareddau Cymdeithasol**

Trefnwyd nifer o weithgareddau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ac roedd hi´n bleser gallu bod yn rhan o weithgareddau difyr dros ben.

Mae´r gweithgareddau yn gyfle i bobl i gymdeithasu yn Gymraeg tu allan i´r ystafell ddosbarth ac i weld yr iaith fel iaith bob dydd. Trefnwyd nosweithiau amrywiol er mwyn sicrhau fod rhywbeth addas i bawb - o nosweithiau Cawl a Chân, nosweithiau gyda´r bobl leol sydd wedi bod ar ysgoloriaethau yng Nghymru yn gwneud cyflwyniadau, nosweithiau teisennau, cynnal stondin yn y ffeiriau llyfrau a llawer mwy. Roedd niferoedd yn amrywio o weithgaredd i weithgaredd ac yn amrywio o ganlyniad i salwch, gwyliau neu weithgareddau oedd yn barod ymlaen gyda´r teulu. Roedd y nosweithiau yn braf iawn ac yn gyfle i gymdeithasu gyda phobl o bob oed. Roeddwn i´n rhan o´r digwyddiadau cymdeithasol o´r dechrau, a gwelais i ba mor bwysig oedd mynychu bob gweithgaredd oedd yn cael ei drefnu yn Gymraeg, nid yn unig y gweithgareddau roeddwn i´n gyfrifol am drefnu. Gweler adroddiad Menter Patagonia am fwy o wybodaeth am weithgareddau cymdeithasol 2018.

**Taith yr Urdd 2018**















**Astudiaeth Achos**

**Lili Roberts, Trelew**






¨Dw i wedi clywed Cymraeg ers wedi geni. Da ni wedi siarad Cymraeg bob dydd yn y cartref efo Mam a chwiorydd a Nain. Doedd Nain ddim yn gallu Sbaeneg yn dda, dim ond Cymraeg. Roedden ni´n siarad Cymraeg efo Nain a phawb o´r teulu. A da ni wedi siarad Cymraeg tan i ni ddechrau mynd i´r ysgol Sbaeneg. Dw i ddim wedi ysgrifennu gymaint ond gyda Mam, roedden ni´n dysgu adrodd erbyn yr Eisteddfod, erbyn cyngherddau yng nghapel Tir Halen, o ni´n darllen i gael dysgu nhw.

Dw i wedi cael fy ngeni yn Tir Halen ac wedi cael fy magu yn Tir Halen. Yn 20 oed, rwy wedi dod i fyw yn Nhrelew i weithio a byw fan hyn ac wedyn wedi priodi. Dw i wedi dechrau dod i´r grŵp Cymraeg efo Gwenno eleni achos bod wyres gyda fi yn mynd i Ysgol yr Hendre felly o ni eisiau gallu siarad Cymraeg yn well achos dw i wedi anghofio achos dw i wedi priodi a ddim wedi siarad am lawer o flynyddoedd. A da ni wedi colli Mam a Nain felly dim ond chwaer ac wyres sydd gyda fi i siarad yn Gymraeg ¨

**Sylwadau Gwenno Rees:**

**Mae Lily yn esiampl arbennig o sut mae llwyddiant yr ysgolion a mwy o blant yn dechrau dysgu Cymraeg yn gallu ysbrydoli oedolion i ddefnyddio eu Cymraeg unwaith eto. Roedd Lily yn ddihyder iawn nôl ym mis Mawrth wrth ddechrau´r grŵp ond erbyn hyn, mae hi´n siarad yn hollol naturiol ac mae ei rhuglder yn dod yn ôl wrth iddi setlo yn y grŵp. Mae´n braf gweld Lily yn siarad Cymraeg gyda´i hwyres 3 oed, ac rwy´n gyffrous i weld Lily a´i hwyres yn parhau i gyfathrebu yn Gymraeg. Da iawn ti Lili! Dal ati!**

Aldo Gomez





Helo! Aldo ydw i neu Piki i fy ffrindiau. Dw i'n 27 mlwydd oed a dwi'n byw ym Mhorth Madryn. Yn fy amser hamdden dw i'n hoffi astudio ieithoedd, beicio, chwarae pêl droed a gwrando ar gerddoriaeth Cymraeg yn Ysgol Camwy hefo Siôn Davies bob ac yn mwynhau yn fawr iawn.

Dechreuais i astudio Cymraeg ym Mis Medi 2017 oherwydd roedd fy ffrind wedi fy ngwahodd i fynd i wersi gyda fo. Dw i'n teithio i’r Gaiman bob dydd Sadwrn i astudio Hefyd dechreuais i fynd i wersi Glesni Edwards ar ddydd Iau ac mae hi wedi bod yn rhoi cymorth i mi gyfieithu patrymau iaith o’r Saesneg i’r Gymraeg wrth i mi astudio adref.

Hefyd mae Glesni wedi bod yn helpu fi i gyfieithu sgriptiau ar gyfer lluniau yr ydwyf wedi bod yn eu creu i gofio ac i ddysgu patrymau iaith. Hoffwn yn fawr wneud cartŵn i rai o’r sgriptiau yn y cwrs Wlpan flwyddyn nesaf gyda chymorth y Swyddog newydd.

Eleni roeddwn i’n hapus iawn gan fy mod i wedi pasio fy Arholiad Mynediad ac rydw i nawr yn adolygu ar gyfer sefyll yr arholiad Sylfaen flwyddyn nesaf.

Dw i’n hoffi astudio Cymraeg yn fawr iawn oherwydd dwi'n hoffi’r iaith a’r diwylliant mae’n ddiddorol a phwysig. Dwi'n aelod o Dystion Jehofa ac rydyn ni’n siarad am drafod y Beibl gyda phobl yn Gymraeg. Hoffwn i yn y dyfodol ennill ysgoloriaeth i fynd i wella fy Nghymraeg yng Nghymru. O bydded i’r heniaith barhau!



## Argymhellion 2017: Adroddiad Cynnydd

**1 Arolwg o waith y Cynllun Cymraeg.**
**Gan na lwyddwyd i gwblhau unrhyw arolwg yn ystod 2017, y bwriad yw trafod gyda rhanddeiliaid y Cynllun - yng Nghymru ac ym Mhatagonia yn ystod Taith Arsylwi 2018 - gyda'r bwriad o gyflwyno argymhellion erbyn diwedd 2018.**

*Cynhaliwyd nifer o drafodaethau yn ystod y flwyddyn gyda rhanddeiliaid y Cynllun yng Nghymru ac ym Mhatagonia yn ystod Taith Arsylwi 2018. Derbyniwyd cryn ymateb ar lafar am strwythur a chyrhaeddiad y Cynllun, ond yn anffodus ychydig iawn o ymateb ysgrifenedig a ffurfiol a dderbyniwyd i'r cais am sylwadau a syniadau. Mynegwyd gan rai y dylid cysegru mwy o adnoddau'r Cynllun i'r Ysgolion dwyieithog. Mae eraill yn benderfynol mai cadw cyfartaledd ymysg y sectorau yw'r ffordd fwyaf effeithiol o weithredu. Arian bach iawn sydd gan y Cynllun ac mae'n amhosib cefnogi pob sector yn hollol anrhydeddus. Mae'n hynod o bwysig ein bod yn parhau i gael ein gweld yn cefnogi'r holl sectorau yn ddiwahân hyd ein gallu.*
*Mae'r Cynllun wedi bod yn cefnogi'r ysgolion dwyieithog yn eu gwaith mewn sawl modd dros y blynyddoedd. Y newyddion gwych yw bod yr ysgolion yn dechrau cymryd yr awenau ac yn ariannu nifer o swyddi athrawon o Gymru eu hunain. Credir felly, hyd nes bydd unrhyw newid sylweddol yng nghyllid y Cynllun, mai cefnogi ystod eang o weithgareddau fyddai'r ffordd oriau o gefnogi'r Gymraeg yn y Wladfa.*
*Mae'n hynod bwysig bod rhan bwysig o adnoddau'r Cynllun yn mynd i gefnogi gwaith y Dosbarthiadau Oedolion a'r Ieuenctid fel ei gilydd. Mae nifer yr oedolion sy'n mynychu'r dosbarthiadau yn rhieni i blant yr ysgolion dwyieithog wedi'r cyfan ac maent yn amlwg yn awyddus i gefnogi addysg Gymraeg eu plant. Hefyd, gan nad oes darpariaeth ddigonol ar gyfer y sector Uwchradd yn rhan fwyaf o'r dalaith, mae'n allweddol ein bod yn parhau i gynnig darpariaeth haeddiannol ar eu cyfer. Mae gwneud hyn yn arwydd pwysig ein bod fel Cynllun yn cefnogi'r gymuned yn ehangach yn hytrach nag un sector benodol.*

**2 Dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion.**
**Mae'n bwysig ein bod yn parhau i ddatblygu ac i gryfhau'r sector yma yn ystod 2018 gyda'r bwriad o gynyddu'r ddarpariaeth ym mhob cymuned gan gynnwys cynnig cyrsiau Blasu yn gyson er mwyn denu myfyrwyr ar gyfer y cyrsiau arferol - Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch.**

*Fel y gwelir yn y tablau, mae niferoedd y dosbarthiadau oedolion wedi rhagori ar y llynedd. Mae ffigyrau Dyffryn Camwy yn galonogol dros ben, ond mae niferoedd yr Andes wedi disgyn unwaith yn rhagor yn anffodus. Er bod gan yr Andes ddosbarthiadau ar bob lefel bychan iawn yw'r niferoedd ym mhob dosbarth. Un Swyddog Datblygu sydd gan y Cynllun yn yr ardal, ond er hynny, mae nifer o diwtoriaid talentog a gweithgar yn Nhrevelin ac Esquel. Mae'n bwysig felly i'r trefnwyr lleol feddwl am ffyrdd amgen o farchnata'r ddarpariaeth yn fwy cyson. Byddai cynnig cyrsiau blasu/cyfarch yn ystod y flwyddyn yn gymorth i geisio gwella ar y niferoedd. Yn yr un modd, mae angen ehangu'r ddarpariaeth ar y lefelau Uwch a Meistroli yn Nyffryn Camwy.*

**3 Cefnogi'r Ysgolion Dwyieithog**
**Parhau i gefnogi'r Ysgolion Dwyieithog gyda chymorth ymarferol ac ariannol fel eu bod yn parhau i ffynnu a thyfu.**

*Mae'r Cynllun wedi bod yn cefnogi'r gwaith dysgu yn yr ysgolion dwyieithog ers iddynt gael eu sefydlu. Bydd y gefnogaeth yma'n parhau hyd allu'r Cynllun a thra bod y galw yn bodoli. Yr ysgolion mwyaf newydd - yn y Gaiman a Threvelin - sydd wedi derbyn y gefnogaeth fwyaf yn ddiweddar, yn bennaf oherwydd y galw. Mae natur cefnogaeth y Cynllun i'r ysgolion yn naturiol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn ôl arbenigedd a phrofiad penodol ein Swyddogion Datblygu.*
*Wrth i'r tair ysgol gryfhau a thyfu ymhellach gellir rhagweld cyfnod pan fydd cefnogaeth y Cynllun i'r ysgolion yma yn esblygu ac yn mynd yn fwy penodol.*

**4 Cyllid.**
**Gan nad yw lefel ein cyllid wedi newid rhyw lawer yn ystod y blynyddoedd diwethaf, y gobaith yw y gallwn weld gwellhad yn ein cyllid craidd fel ein bod yn gallu nid yn unig gryfhau'r hyn yr ydym yn ei wneud yn barod ond hefyd i gynllunio a gweithredu prosiectau penodol ychwanegol**

*Nid yw lefel cyllid y Cynllun wedi cynyddu i bob pwrpas ers rhai blynyddoedd. Er hyn, mae cyllid ychwanegol wedi bod ar gael yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar gyfer prosiectau penodol, heb wella dim yng nghyfanswm craidd y gyllideb. Er bod arwyddion y bydd cynnydd bychan yn lefel y cyllid yn bosib yn ystod 2019, ni ellir rhagweld y bydd hyn yn ein galluogi i ehangu'r ddarpariaeth. Y gobaith yw y bydd unrhyw gynnydd bychan yn ein digolledi yn erbyn y dirywiad real yng ngwerth y gyllideb oherwydd chwyddiant. Mae'r Cynllun yn dal i weithredu yn ariannol o flwyddyn i flwyddyn yn anffodus, sy'n ei gwneud yn anodd datblygu syniadau a phrosiectau tymor hir. Yr ydym felly yn parhau i obeithio y byddwn yn gallu symud i weithio o fewn cylch ariannol o dair blynedd yn y dyfodol agos.*

**5 Hyfforddiant ac ansawdd.**
**Byddwn yn parhau'r trafodaethau gyda Phrifysgol Bangor a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant er mwyn sefydlu rhaglen addasu cyrsiau newydd a chynllunio amserlen o hyfforddiant strwythuredig ar gyfer y tiwtoriaid lleol erbyn diwedd y flwyddyn hon. Prif fwriad hyn yw gwella ar ansawdd y dysgu.**

*Mae'r trafodaethau gyda Phrifysgol Bangor - trwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol - am raglen o hyfforddiant ar gyfer y tiwtoriaid lleol wedi bod yn parhau yn ystod 2018.*

*Rydym yn rhagweld bydd y rhaglen yn dechrau rhywdro yn ystod 2019.*
*Yn anffodus, profodd yn amhosibl i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant barhau gyda rhaglen arfaethedig i anfon myfyrwyr ar gyrsiau hyfforddi athrawon i'r Wladfa oherwydd problemau gweithredol ac ymarferol.*

**6 Gwaith Menter Patagonia.**
**Pwysleisio pwysigrwydd o barhau i ddatblygu a chryfhau'r ddarpariaeth bwysig yma ym mhob cymuned fel rhan o broses normaleiddio'r iaith yn nhalaith Chubut.**

*Er mai dim ond bodoli mewn enw yn unig mae Menter Patagonia, mae'r Swyddogion Datblygu wedi bod yn brysur iawn yn trefnu a gweithredu rhaglen o ddigwyddiadau cymdeithasol cymdeithasoli iaith ym mhob ardal yn ystod y flwyddyn. Mae safle MenterPatagonia ar rhai o safleoedd cymdeithasol megis Face Book yn hynod o fywiog ac yn adlewyrchu'r gwaith cyson sy'n cael ei wneud yn y maes pwysig yma. Parhawyd gyda'r gwaith da yma yn ystod 2018. Rydym dal yn obeithiol y bydd cyllid ychwanegol ar gael er mwyn ein galluogi i gyflogi staff Menter arbenigol i gynyddu nifer ac ansawdd y gweithgareddau.*

## Argymhellion 2018

**1 Dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion.**
Byddwn yn ceisio ehangu nifer ac ystod y dosbarthiadau Oedolion yn Nyffryn Camwy a cheisio cynyddu'r niferoedd yn nosbarthiadau'r Andes

**2 Cefnogi'r Ysgolion Dwyieithog**
Parhau i gefnogi'r Ysgolion Dwyieithog hyd ein gallu gyda chymorth ymarferol ac ariannol fel bod yr ysgolion yn parhau i dyfu a ffynnu.

**3 Cyllid.**
Nid yw lefel ein cyllid wedi newid llawer ar hyd y blynyddoedd diwethaf, felly rydym dal i fyw mewn gobaith bydd cyfanswm ein cyllid craidd yn codi ac ein bod yn gallu cynllunio'n well hir dymor gyda chynllun cyllido dros dair blynedd.

**5 Hyfforddiant ac ansawdd.**
Byddwn yn parhau'r rhaglen hyfforddiant a'r cynllun addasu cyrsiau newydd gyda Phrifysgol Bangor

**6 Gwaith Menter Patagonia.**
Parhau i bwysleisio pwysigrwydd y gwaith pwysig o roi cyd-destun cymdeithasol i'r iaith tu allan i'r ystafell ddosbarth fel rhan o broses normaleiddio'r iaith yn nhalaith Chubut.

